RHONDDA CYNON TAF

# Rheoli

# Gwaharddiadau mewn Ysgolion ac

# Unedau Cyfeirio Disgyblion

Canllawiau ar Weithdrefnau a Phrotocolau
Llywodraeth Cymru
a'r Awdurdod Lleol

## Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| Diffiniadau a geirfa | 4 |
| Polisïau ymddygiad | 5 |
| **Adran 1: Penderfynu Gwahardd** | **6** |
| 1.1 Y rhesymau dros wahardd | 6 |
| 1.2 Gwaharddiadau sy’n gysylltiedig â chyffuriau | 6 |
| 1.3 Gwaharddiadau parhaol | 7 |
| 1.4 Ffactorau i'w hystyried | 8 |
| 1.5 Dewisiadau eraill yn lle gwahardd | 8 |
| 1.6 Gwaharddiadau anghyfreithlon | 10 |
| 1.7 Hyd gwaharddiadau cyfnod penodol | 11 |
| 1.8 Ystyriaethau pwysig | 12 |
| 1.9 Disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol | 13 |
| 1.10 Cydraddoldeb | 13 |
| 1.11 Apeliadau yn sgil cyhuddiad o wahaniaethu | 14 |
| 1.12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | 14 |
| 1.13 Plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal | 14 |
| 1.14 Tynnu disgyblion o'r ysgol o dan amgylchiadau eithriadol | 15 |
| 1.15 Tynnu disgyblion o'r ysgol oherwydd rhesymau meddygol | 16 |
| 1.16 Cydweithrediad Rhieni | 16 |
| 1.17 Ymddygiad y tu allan i'r ysgol | 16 |
| **Adran 2: Y Broses o Wahardd** | **17** |
| 2.1 Rhoi gwybod i'r 'unigolion perthnasol' am y gwaharddiad | 17 |
| 2.2 Darparu addysg yn ystod gwaharddiadau | 18 |
| 2.3 Cofnodi gwaharddiadau | 19 |
| 2.4 Rhoi gwybod i'r pwyllgor disgyblu ac i'r Awdurdod Lleol | 20 |
| 2.5 Adroddiadau Gwahardd | 20 |
| **Adran 3: Y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a Gwaharddiadau** | **22** |
| 3.1 Swyddogaeth a chyfrifoldebau'r pwyllgor disgyblu | 22 |
| 3.2 Cyfansoddiad y pwyllgor | 22 |
| 3.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion | 22 |
| 3.4 Gwaharddiadau o Unedau Cyfeirio Disgyblion | 26 |
| **Adran 4: Gweithdrefnau ac ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad** | **28** |
| 4.1 Darpariaeth addas a llawn amser | 28 |
| 4.2 Cyfarfodydd ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiadau cyfnod penodol | 28 |
| 4.3 Yn dilyn gwaharddiad parhaol | 29 |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhan 5: Paneli Apelio Annibynnol** | | **31** |
| 5.1 | Swyddogaeth yr Awdurdod Lleol | 31 |
| 5.2 | Swyddogaeth y Clerc | 32 |
| 5.3 | Y rheiny sy'n dod | 32 |
| 5.4 | Gweithdrefn ar gyfer gwrandawiadau'r Panel Apelio Annibynnol | 33 |
| 5.5 | Ar ôl y gwrandawiad | 34 |
| 5.6 | Adolygiad barnwrol | 35 |
| **Adran 6: Troseddau honedig, swyddogaeth yr Heddlu ac achosion troseddol sy'n digwydd ar yr un pryd** | | **36** |
| 6.1 | Penderfyniad Pennaeth ysgol i wahardd ac ystyriaeth y pwyllgor disgyblu o'r amgylchiadau | 36 |
| 6.2 | Trefniadau ar gyfer gwrandawiad apêl pan fo achosion troseddol yn digwydd ar yr un pryd | 36 |
| Atodiad A: Llythyron enghreifftiol | | 38 |
| Atodiad B: Ffurflen Adrodd am Waharddiad | | 48 |
| Atodiad C: Rhestrau gwirio ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion | | 49 |

**Cyflwyniad**

Rhaid i benaethiaid, athrawon sy'n gyfrifol am Unedau Cyfeirio Disgyblion, cyrff llywodraethu, Awdurdodau Lleol a phaneli apelio annibynnol roi ystyriaeth i ganllawiau Llywodraeth Cymru, sef *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (dogfen ganllaw 171/2015 - Ebrill 2015) wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwaharddiadau. Mae disgwyl bod y canllawiau yma'n cael eu dilyn oni bai bod rheswm da dros beidio**.** Dyw'r canllawiau yma ddim yn cynnwys popeth ac mae angen ystyried amgylchiadau achosion unigol yn ofalus.

Mae'r canllawiau yma'n berthnasol i bob ysgol a gynhelir, gan gynnwys meithrinfeydd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, a phob disgybl sy'n eu mynychu, gan gynnwys y rheiny sy'n iau neu'n hŷn nag oedran addysg orfodol. Bydd adegau pan allai gwahardd plentyn fod yn gosb briodol am gamymddwyn. Serch hynny, nod y canllawiau yma yw sicrhau bod y broses o wahardd yn deg ac yn gyfiawn a bod camau yn cael eu rhoi ar waith i wella ymddygiad yn hytrach na dibynnu ar gosbau niferus yn unig.

Mae'r ddogfen ganllaw yma gan yr Awdurdod Lleol yn rhoi trosolwg i ysgolion RhCT o nodweddion pwysig y canllawiau. Mae'n rhoi cymorth i ysgolion a chyrff llywodraethu fel y gallan nhw reoli'r broses o wahardd mewn modd priodol, gan roi ystyriaeth ddigonol i ofynion cyfreithiol Llywodraeth Cymru ac i ddisgwyliadau'r Awdurdod Lleol.

Mae gwaharddiadau dro ar ôl tro neu waharddiadau estynedig yn debygol o gael effaith negyddol ar addysg a chyrhaeddiad disgybl. Gall y disgyblion yma golli diddordeb, ac mae cosbau pellach yn debygol o fod yn llai, yn hytrach nag yn fwy, effeithiol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai gwaharddiadau fod am y cyfnod byrraf posibl oherwydd po hiraf y bydd y cyfnod gwahardd, anoddaf fydd ailintegreiddio'r disgybl i addysg brif ffrwd. Mewn gwirionedd, bydd gwaharddiadau niferus a hir yn debygol o golli'u heffaith, a bydd y plentyn yn colli diddordeb mewn addysg yn hytrach na pheidio â chamymddwyn.

Dylai ysgolion hefyd fod yn arbennig o effro i effaith gwaharddiadau ar ddisgyblion mwy agored i niwed a'r risgiau cynyddol y gallan nhw eu hwynebu. Byddai disgyblion o'r fath yn cynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a'r rhai sy'n derbyn gofal.

Er bod trefn y canllawiau yma'n dilyn Canllawiau Llywodraeth Cymru yn agos, mae rhai elfennau wedi'u cyfuno er mwyn eu gwneud nhw'n fwy eglur, ar ffurf fwy cryno a syml. Eu nod yw bodloni anghenion ysgolion RhCT yn neilltuol, gan roi ystyriaeth i brotocolau a disgwyliadau gweithdrefnol yr Awdurdod Lleol. Mae rhagor o wybodaeth bwysig a pherthnasol wedi'i nodi yn nogfennau'r Awdurdod Lleol, sef, Protocol ar gyfer Symudiadau wedi'u Rheoli a Phrotocol Mynediad Teg.

Dylai'r rheiny sydd am gael cyngor ychwanegol ynghylch lleihau a rheoli gwaharddiadau gysylltu â swyddogion Mynediad a Chynhwysiant. Bydd modd i'r

swyddogion roi gwybodaeth a chymorth yn benodol ar gyfer achosion unigol, a chynnig hyfforddiant i ysgolion a llywodraethwyr.

**Diffiniadau a geirfa**

**'Gwaharddiad cyfnod penodol'** - cosb sy'n atal disgybl rhag mynychu ysgol unigol am gyfnod cyfyngedig

**'Gwaharddiad parhaol'** - cosb sy'n atal disgybl rhag dychwelyd i ysgol unigol oni bai ei fod yn cael ei adfer gan y Corff Llywodraethu neu'r panel apelio

**'Unigolion perthnasol'** - yr holl unigolion y mae angen eu hysbysu o unrhyw waharddiadau sy'n rhannu hawliau o dan y protocolau apelio. Dyma nhw:

- y rhiant/gwarcheidwad, os yw'r disgybl o oedran ysgol gynradd neu'n iau
- y rhiant/gwarcheidwad a'r disgybl, os yw'r disgybl o oedran ysgol uwchradd gorfodol
- y disgybl os yw'n hŷn na'r oedran addysg orfodol (16 oed fel arfer)

**'Rhiant/Gwarcheidwad'** - unrhyw un sy'n gyfrifol am ddisgybl, neu am ofal disgybl, sy'n cynnwys gwarcheidwaid a rhieni corfforaethol. Pan fo gorchymyn gofal mewn perthynas â disgybl, yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y plentyn.

**'Uned Cyfeirio Disgyblion** - drwy gydol y canllawiau yma, mae'r gair 'ysgol/ysgolion' yn golygu Uned/Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd. Sylwer bod 'Pennaeth' yn yr un modd yn gallu cyfeirio at yr athro sy'n rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion. Lle mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn wahanol ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion, bydd hyn yn cael ei nodi.

'**Pwyllgor Disgyblu Disgyblion'** - pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion Corff Llywodraethu'r ysgol. Mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, mae hyn yn cynnwys aelodau o'r pwyllgor rheoli.

**'Paneli Apelio Annibynnol'** - paneli sy'n cael eu ffurfio gan yr Awdurdod Lleol i graffu ar achosion disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol, os yw'r unigolion perthnasol am ddadlau yn erbyn penderfyniad y pwyllgor disgyblu.

**'Panel Protocol Mynediad Teg'** - y corff sy'n cael ei gynnal ar y cyd gan yr Awdurdod Lleol a'r ysgolion, sy'n gweinyddu lleoli disgyblion 'anodd eu lleoli' sy'n fwy agored i niwed, gan gynnwys y rheiny sy'n destun symudiadau wedi'u rheoli ac yn dilyn gwaharddiadau parhaol.

**'Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth'** - y swyddog Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am roi arweiniad i ysgolion o ran rheoli gwaharddiadau'n briodol ac o ran ceisio lleihau eu nifer a'u hyd. Mae'r Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth yn

gweithredu'n ddolen gyswllt rhwng y rhieni a'r Awdurdod Lleol, a dylid tynnu sylw at hyn mewn llythyron gwahardd (edrychwch ar Atodiad A).

**Addysg Heblaw yn yr Ysgol** - yr asiantaethau sy'n rhoi cymorth i ysgolion drwy ddarparu'n briodol ar gyfer disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd am fwy na 15 diwrnod yn olynol, ac ar gyfer y rheiny sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol (edrychwch ar Adran 2.2).

**Polisïau ymddygiad**

Rhaid i ysgolion sicrhau bod ganddyn nhw bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n hyrwyddo ymddygiad da ac sy'n atal ymddygiad gwael. Dylai polisïau ganolbwyntio ar y systemau sydd ar waith at ddiben hyrwyddo ymddygiad da, yn hytrach nag ar y gweithdrefnau disgyblu yn unig. Dylai polisi ymddygiad a phresenoldeb ysgol gael ei ystyried yn rhan annatod o'i chwricwlwm, gan fod pob ysgol yn addysgu gwerthoedd yn ogystal â sgiliau a gwybodaeth. Dylai'r polisi hyrwyddo hunan-ddisgyblaeth, parch, tegwch a chynhwysiant, a dylai adlewyrchu nodau cyffredinol yr ysgol a'i rhaglenni addysg cymdeithasol, moesol a chrefyddol.

Dylai'r polisi fod yn gydnaws â dulliau'r ysgol o hybu lles emosiynol disgyblion, mynd i'r afael ag unrhyw broblemau iechyd meddwl sydd gan ddisgyblion unigol. Dylai hybu cyfleoedd cyfartal i ddisgyblion a chael gwared ag annhegwch a gwahaniaethu yn unol â dyletswyddau penodol yr ysgol yn sgil Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylai fod yn berthnasol i bob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys staff a rhieni/gwarcheidwaid, fel sy'n cael ei hyrwyddo ym mhrosiectau Dulliau Adferol a Llesiant RhCT.

**Polisïau ysgol pwysig:**

- Ymddygiad a Phresenoldeb
- Camddefnyddio Sylweddau
- Cynllun a Pholisi Cydraddoldeb
- Polisi Gwahardd yr Ysgol

## Adran 1: Penderfynu Gwahardd

Dim ond y Pennaeth, neu'r athro sy'n gyfrifol am Uned Cyfeirio Disgyblion, a all wahardd disgybl. Waeth beth yw difrifoldeb y sancsiwn, hyd yn oed os dim ond hanner diwrnod yw'r gwaharddiad, dim ond y Pennaeth sydd â'r awdurdod hwnnw i wneud penderfyniad o'r fath. Pan fo'n absennol, gall yr athro uchaf o ran awdurdod wahardd disgybl, ond dylai wneud yn glir mai gweithredu yn absenoldeb y Pennaeth y mae.

### 1.1 Y rhesymau dros wahardd

Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y dylai disgybl gael ei wahardd:

- os yw wedi camymddwyn yn sylweddol groes i bolisi ymddygiad yr ysgol a
- byddai gadael i'r disgybl aros yn yr ysgol yn niweidiol iawn i addysg neu les y disgybl neu eraill yn yr ysgol.

Ddylai disgybl ddim cael ei wahardd yn sgil yr achosion canlynol:

- digwyddiadau llai difrifol megis methu â chwblhau gwaith cartref
- cyflawniad academaidd gwan
- bod yn hwyr neu'n absennol
- beichiogrwydd
- methu â chydymffurfio â rheolau ynghylch gwisg ysgol neu ynghylch gwedd (gan gynnwys gemwaith a steil gwallt), ac eithrio pan fo hyn yn digwydd yn aml a phan fo'r disgybl yn gwrthod dilyn rheolau o'r fath yn agored. Dylai'r ysgol geisio pob ffordd arall o ddatrys y broblem yn gyntaf
- ymddygiad rhieni/gwarcheidwaid, er enghraifft, pan fo rhieni/gwarcheidwaid disgybl yn gwrthod dod i gyfarfod, neu'n methu â dod
- diogelu dioddefwyr bwlio drwy'u hanfon nhw adref

**1.2** Gwaharddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau

Wrth benderfynu a oes angen gwahardd am drosedd sy'n ymwneud â chyffuriau, dylai'r Pennaeth ystyried polisi yr ysgol ar gamddefnyddio cyffuriau. Dylai hefyd ymgynghori ag aelodau staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol. Serch hynny, bydd y penderfyniad hefyd yn dibynnu ar union amgylchiadau'r achos a'r dystiolaeth sydd ar gael. Mewn rhai achosion, gall gwaharddiad cyfnod penodol fod yn fwy priodol na gwaharddiad parhaol, o bosibl ochr yn ochr ag ymyriadau cefnogol gydag asiantaethau allanol megis BAROD - Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Integredig Cwm Taf (Un man cyswllt Cyffuriau ac Alcohol (DASPA) 0300 333 0000). Mewn achosion mwy difrifol, mae angen gwneud asesiad o'r digwyddiad yn erbyn y meini prawf sydd wedi'u pennu ym mholisi'r ysgol. Dylai hyn fod yn ffactor allweddol o ran penderfynu a yw gwahardd yn barhaol yn gam priodol i'w gymryd.

Mae rhagor o fanylion am ddatblygu a gweithredu polisïau camddefnyddio cyffuriau yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar Addysg Camddefnyddio Sylweddau (dogfen ganllaw rhif 107/2013).

## 1.3 Gwaharddiadau parhaol

### Cronni troseddau disgyblu

Mae penderfyniad i wahardd disgybl yn barhaol yn un difrifol. Fel rheol, dyma'r cam olaf yn y broses o ddelio ag ymddygiad sydd yn erbyn y rheolau, ar ôl i strategaethau amrywiol eraill fod yn aflwyddiannus. Drwy wneud hyn, mae'r ysgol yn cydnabod ei bod wedi ceisio pob strategaeth arall o gynorthwyo'r disgybl. Dylai fod y dewis olaf un. Dylai'r ysgol fod wedi gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad a/neu'r Gwasanaeth Seicoleg ym maes Addysg er mwyn datblygu strategaethau ar gyfer cynorthwyo disgyblion yn y sefyllfa yma. Dylai fod gan yr ysgol dystiolaeth o'r broses gadarn, raddol yma y gall ei dangos i'r pwyllgor disgyblu, ac o bosibl i Banel Apelio Annibynnol.

### Troseddau unigol

Serch hynny, bydd amgylchiadau eithriadol lle y gall Pennaeth ei hystyried hi'n briodol gwahardd disgybl yn barhaol yn dilyn y drosedd gyntaf neu drosedd unigol.

Gallai'r canlynol fod yn enghreifftiau o'r rhain:

- Gweithred dreisgar a difrifol yn erbyn disgybl arall neu aelod o staff, neu fygythiad i wneud hynny
- Cam-drin rhywiol neu ymosod yn rhywiol
- Cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon
- Defnyddio arf ymosodol, neu fygwth gwneud hynny

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n addas i ysgol roi gwybod i'r heddlu os bydd aelodau o staff o'r farn bod trosedd o'r fath wedi digwydd. Gall fod achosion lle bydd y dull yma o weithredu yn briodol ar ôl i ddisgybl gael ei wahardd am gyfnod penodol. Dylai ysgolion ystyried hefyd a ddylai asiantaethau eraill gael gwybod neu beidio, er enghraifft, Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc, Gwasanaethau i Blant, ac ati.

Pan fydd yr heddlu wedi dechrau ymchwiliad a allai arwain at achos troseddol, mae'n bosibl y bydd y dystiolaeth sydd ar gael i'r Pennaeth yn brin iawn. Serch hynny, dylai fod modd i'r Pennaeth benderfynu a ddylai wahardd y disgybl ai peidio. Ddylai'r Pennaeth ddim gohirio penderfyniad oherwydd y posibilrwydd y caiff achos ei ddwyn gerbron llys ynglŷn â'r un digwyddiad (edrychwch ar Adran 6).

Hyd yn oed yn dilyn troseddau unigol difrifol, dylai ysgolion gadw mewn cysylltiad agos â'r Awdurdod Lleol er mwyn ystyried dulliau eraill o fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Mewn achosion mwy difrifol, mae angen gwneud asesiad o'r digwyddiad yn erbyn y meini prawf sydd wedi'u pennu ym mholisi'r ysgol. Dylai hyn fod yn ffactor allweddol o ran penderfynu a yw gwahardd yn barhaol yn gam priodol i'w gymryd.

Fel arfer, dydy gwahardd disgybl yn barhaol ddim yn ei atal rhag mynychu ysgol brif ffrwd arall o'i ddewis oni bai mai dyma'r ail waharddiad o'r fath o fewn dwy flynedd.

## 1.4 Ffactorau i'w hystyried

Cyn penderfynu gwahardd, dylai penaethiaid wneud y canlynol:

- cadw cofnod ysgrifenedig o'r digwyddiad ac o'r camau a gafodd eu cymryd
- sicrhau bod ymchwiliad addas wedi cael ei gynnal
- caniatáu i'r disgybl adrodd ffeithiau'r digwyddiad o'i safbwynt ef/hi
- ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ategu'r honiadau (po fwyaf difrifol yw'r honiad ac felly'r sancsiwn posibl, y mwyaf argyhoeddiadol y mae angen i'r dystiolaeth sy'n cadarnhau'r honiad fod)
- mae safon y dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gwahardd disgybl ai peidio yn seiliedig ar yr egwyddor 'pwysau tebygolrwydd', nid 'y tu hwnt i amheuaeth resymol'
- ystyried a allai'r disgybl fod wedi cael ei bryfocio, er enghraifft, drwy fwlio neu drwy aflonyddwch rhywiol neu hiliol
- rhoi ystyriaeth i bolisïau ymddygiad a chyfleoedd cyfartal yr ysgol a, lle bo'n briodol, Deddf Cydraddoldeb 2010 (edrychwch ar Adran 1.9)
- ystyried effaith gwahardd ar ddisgyblion sy'n fwy agored i newid o ran diogelu, yn enwedig y rheiny sydd o dan orchmynion Amddiffyn Plant
- ymgynghori ag eraill pan fo angen, ac eithrio unrhyw un a allai fod ynghlwm wrth y broses o adolygu penderfyniad y Pennaeth yn nes ymlaen, er enghraifft, aelod o'r pwyllgor disgyblu
- ystyried p'un a yw'r strategaeth ysgol sydd wedi cael ei mabwysiadu'n ddigon effeithiol o ran rhoi cymorth i blant sydd ag anghenion ymddygiadol ac emosiynol
- sicrhau bod yr ysgol yn ymateb mewn ffordd gadarn a graddol, gan gadw mewn cysylltiad agos ag asiantaethau allanol perthnasol a chan ystyried opsiynau amrywiol o ran mynd i'r afael â phryderon ymddygiadol parhaus (edrychwch ar 1.4)
- cadw mewn cysylltiad agos â'r Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth ynghylch gwahardd mewn achosion lle byddai angen ystyriaeth Pwyllgor Disgyblu Disgyblion y llywodraethwyr (edrychwch ar Adran 3)

## 1.5 Dewisiadau eraill yn lle gwahardd

Ddylai disgybl ddim cael ei wahardd pan fo dulliau eraill o ddatrys y broblem. Dyma rai enghreifftiau:

- **Tynnu'r disgybl o wersi penodol**
  Yn sgil ymddygiad heriol mewn gwersi penodol, efallai bod angen ymateb drwy dynnu disgybl o'r gwersi hynny am gyfnod penodol. Serch hynny, dylai hyn fod dros dro yn unig a ddylai ddim digwydd yn rheolaidd. Rhaid sicrhau bod trefniadau priodol eraill yn cael eu gwneud o ran addysg y disgybl. Er nad gwaharddiad yw hyn fel y cyfryw, dylai'r ysgol drafod â'r

rhieni/gwarcheidwaid a'r disgybl, a dylai'r trefniadau gael eu hadolygu'n rheolaidd. Os yw'n bosibl, dylai'r disgybl allu ailymuno â'r wers yn y pen draw, ar ôl cyfarfod â'r aelod o staff. Fel arall, gallai fod yn fwy priodol symud y disgybl i ddosbarth neu set gwahanol/wahanol.

- **Ymddygiad yn ystod amser cinio**
  Gall ymddygiad rhai disgyblion fod yn arbennig o anodd yn ystod amser cinio. Mewn achosion o'r fath, gallai fod yn bosibl trefnu i'r disgybl fynd adref yn ystod amser cinio, yn dilyn sgwrs â'r rhiant/gwarcheidwad. Os nad yw hyn yn bosibl, mae modd gwahardd y disgybl yn ystod amser cinio yn unig. Mae gwneud hyn yn trosglwyddo cyfrifoldeb cyfreithiol am y disgybl yn ôl i'r rhiant/gwarcheidwad.

- **Dulliau Adferol**
  Mae'r ymyrraeth yma'n rhoi cyfle i ddisgyblion sydd wedi achosi niwed sylweddol i eraill fyfyrio ar effaith eu hymddygiad, a gwneud iawn amdano. Mae'n galluogi pob parti sydd â rhan yn y canlyniad i gymryd rhan lawn yn y broses. Dylai dull amlasiantaethol gael ei ddefnyddio gyda'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol yn cymryd rhan yn y broses. Rhaid i bob parti gydsynio i gymryd rhan.

- **Gwaharddiad mewnol**
  'Cynhwysiant' yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio gan ysgolion ambell waith. Gall hyn fod yn fodd o dawelu sefyllfa drwy dynnu disgybl o ddosbarth, pan nad oes angen ei wahardd o'r ysgol. Mae'n bosibl y caiff y disgybl ei roi mewn man penodol yn yr ysgol, gyda chymorth priodol, neu mewn dosbarth arall am gyfnod penodol, a gallai hynny barhau yn ystod egwyliau. Os yw'r disgybl yn cael ei gadw i ffwrdd o ddisgyblion eraill, mae angen gwneud trefniadau ar gyfer y rheiny sy'n cael prydau ysgol am ddim. Efallai bydd raid darparu pecyn cinio yn yr achos yma.
  Dylai disgyblion sydd wedi cael gwaharddiad mewnol gael eu monitro i sicrhau bod hyn yn effeithiol. Dylai'r ysgol osgoi rhoi disgyblion unigol dan anfantais o ran cael mynediad at addysg y brif ffrwd yn y tymor hir.

- **Rhaglenni Cymorth Bugeiliol**
  Cynlluniau yw'r rhain i helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad yn well. Dylen nhw gael eu paratoi ar y cyd gan sawl asiantaeth gan gynnwys y disgybl a'r rhieni/gwarcheidwaid, a dylen nhw gael eu hadolygu'n rheolaidd. I gael rhagor o fanylion ynglŷn â sefydlu cynlluniau o'r fath, edrychwch ar ddogfen ganllaw rhif 203/2016 (adran 4.18) Llywodraeth Cymru, sef, *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*. Gall y rhain gynnwys amserlen wedi'i haddasu neu ei lleihau. Yn adran 5.2.25, mae hyn yn cael ei ddisgrifio fel 'Dysgu Hyblyg'. Dylai unrhyw drefniant o'r fath fod yn un tymor byr a chael ei lunio mewn cytundeb â rhieni ac mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol.

- **Cynlluniau triniaeth gadarnhaol / Asesiadau risg**
  Yn achos disgyblion sy'n gallu bod yn beryglus, dylai cynlluniau gael eu paratoi mewn modd sy'n rheoli risg ac sy'n sicrhau bod argyfyngau yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru'n ddiogel.

- **Symudiadau wedi'u rheoli**
  Os bydd ysgol o'r farn na all reoli ymddygiad disgybl penodol ragor, gall drefnu iddo symud i ysgol arall. Bydd hyn dros dro i ddechrau. Yn y lle cyntaf, peth doeth fyddai i'r ysgol drafod y mater yma gyda'r Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth cyn argymell yr opsiwn yma i rieni fel bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn (edrychwch ar *Brotocolau Symudiadau wedi'u Rheoli* RhCT am wybodaeth fanwl ynghylch y broses yma). Ddylai rhieni/gwarcheidwaid ddim teimlo o dan bwysau i symud plentyn sydd o bosibl yn mynd i gael ei wahardd. Ddylai enwau disgyblion ddim cael eu dileu o gofrestr yr ysgol er mwyn eu hannog i ddod o hyd i le mewn ysgol arall.

- **Darpariaeth ychwanegol / lleoliadau eraill**
  Dylai ysgolion ymgynghori â swyddogion yr asiantaethau Awdurdod Lleol priodol megis y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad i benderfynu a yw'r meini prawf ar gyfer sicrhau lleoliad arbenigol yn cael eu bodloni ac i egluro'r prosesau perthnasol ar gyfer gwneud cais.

- **Colegau addysg bellach**
  Gall hyn fod yn opsiwn priodol ar gyfer rhai disgyblion ym mlynyddoedd 10 neu 11 a gallai'r Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth drafod yr opsiwn yma â'r ysgolion. Mae ysgolion yn gyfrifol o hyd am gostau darpariaeth yn y sector AB yn achos disgyblion sydd wedi'u gwahardd, ac am y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni.

- **Lleoliadau gwaith**
  Mae disgyblion hŷn yn debygol o elwa ar dreulio diwrnod mewn lleoliad gwaith, lle mae hi weithiau yn bosibl astudio am gymhwyster galwedigaethol. Gall hyn fod yn fodd o roi sgiliau bywyd ehangach iddyn nhw. Dylai darpariaeth o'r fath gael ei chynllunio a'i monitro'n ofalus. Weithiau bydd cyrsiau arbennig ar gyfer datblygu sgiliau byd gwaith yn rhan o'r amserlen. Caiff y rhain eu cynnal gan asiantaethau megis y Gwasanaeth Gyrfaoedd, y Gwasanaeth Ieuenctid a sefydliadau gwirfoddol.

Mae canllawiau ychwanegol ar yr amrywiaeth o asiantaethau eraill yn RhCT sy'n cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion unigol ar gael drwy'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.

## 1.6 Gwaharddiadau anghyfreithlon

Dylai Pennaeth sy'n ystyried bod ymddygiad disgybl yn ddigon heriol i gyfiawnhau gwahardd, boed am gyfnod penodol neu'n barhaol, ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi yng nghanllaw Llywodraeth Cymru. Mae

gwaharddiad anffurfiol neu answyddogol yn anghyfreithlon, hyd yn oed os yw'r rhieni neu'r gwarcheidwaid wedi cytuno iddo.

Byddai hyn yn cynnwys:

- anfon disgybl adref am resymau disgyblu heb ddilyn y gweithdrefnau hanfodol o ran gwahardd disgybl yn ffurfiol
- anfon disgybl adref am gyfnodau byr neu am gyfnodau estynedig sy'n gallu, weithiau, arwain at y disgybl yn peidio â dychwelyd i'r ysgol o gwbl
- dylanwadu ar rieni/gwarcheidwaid neu eu hannog i dynnu'r plentyn o'r ysgol yn 'wirfoddol' naill ai am gyfnodau byr neu yn barhaol fel ffordd o ddelio ag ymddygiad heriol

Ni ddylid fyth roi pwysau ar rieni/gwarcheidwad i symud eu plentyn o’r ysgol trwy eu bygwth â gwaharddiad parhaol ac ni ddylai dysgwyr gael eu dileu o’r gofrestr i’w hannog i ddod o hyd i le mewn ysgol arall.

Dyw ysgol ddim yn cael anfon plentyn adref er mwyn ei dawelu neu ar sail rhesymau 'iechyd a diogelwch' heb ei wahardd yn ffurfiol. Gall ysgolion fod o'r farn bod osgoi gwahardd plentyn yn fuddiol iddo ond gall peidio â dilyn y gweithdrefnau cywir atal monitro a'r cymorth priodol rhag cael ei roi. Gall hefyd gyfyngu ar y cymorth cyfreithiol sydd ar gael i rieni a disgyblion.

Ym mhob achos lle y mae disgybl yn cael ei anfon adref oherwydd rhesymau disgyblu, rhaid i benaethiaid gofnodi'r gwaharddiad gan bennu ei hyd.

Os yw'r ysgol o'r farn ei bod hi'n angenrheidiol anfon plentyn adref yn ystod y diwrnod ysgol mewn amgylchiadau eithafol, dylai sicrhau:

- ei bod hi'n cyflawni ei dyletswydd gofal yn ôl y gyfraith i ddisgyblion, a hysbysu rhieni/gwarcheidwaid yn ffurfiol am y gwaharddiad, yn enwedig os yw'r disgybl yn cael ei wahardd yn ystod y diwrnod ysgol heb gael ei gasglu gan riant
- bod materion diogelu plant yn cael eu hystyried ac nad yw disgyblion yn cael eu rhoi mewn sefyllfa beryglus drwy gael eu gadael i grwydro'r strydoedd neu i fod ar eu pennau eu hunain gartref.

(Edrychwch ar adran 2.3 ynghylch cyfrifo hyd y gwaharddiad o dan yr amgylchiadau yma.)

### 1.7 Hyd gwaharddiadau cyfnod penodol

Er mai difrifoldeb y drosedd a fydd yn pennu'r hyd, dylai gwaharddiadau unigol fod mor fyr â phosibl, gan roi ystyriaeth i oedran y disgybl. Mae gwaharddiadau o fwy na diwrnod neu ddau yn ei gwneud yn anos i'r disgybl ailintegreiddio yn yr ysgol.

**Gwaharddiadau rhan-amser**
Does dim rhaid i waharddiad fod am gyfnod parhaus. Felly, er enghraifft, os yw disgybl wedi'i gofrestru'n ddeuol mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, gallai gwaharddiad tridiau o'r ysgol fod am un diwrnod yn ystod yr wythnos gyntaf a dau ddiwrnod yn ystod yr wythnos ganlynol (edrychwch ar 2.3 Cofnodi gwaharddiadau para. 2). Serch hynny, ar gyfer disgyblion rhan amser, os bydd gwaharddiad o'r fath yn cael ei roi yn ei le, bydd hi'n fwy tebygol y bydd effaith niweidiol ar ailintegreiddio'n llwyddiannus. Yn achos disgyblion sy'n mynychu ysgol ar ddim ond un diwrnod o'r wythnos, gall hyd yn oed gwaharddiad byr arwain at ddiffyg cyswllt dros gyfnod hir a dylai'r Pennaeth ystyried addasu'r hyd yn unol â hynny.
Fyddai gwaharddiad o naill ai'r ysgol neu'r Uned Cyfeirio Disgyblion ddim yn atal y disgybl rhag mynychu'r llall.

**Gwaharddiadau amser cinio**
Os yw amser cinio yn broblem neilltuol, gall ysgolion ddod i gytundeb â'r rhieni i drefnu i'r disgybl fynd adref ar yr adeg yma gan roi'r cyfrifoldeb cyfreithiol am y disgybl i'r rhiant/gwarcheidwad. Dylai trefniadau gael eu rhoi yn eu lle i sicrhau nad yw disgybl yn colli unrhyw hawl i Brydau Ysgol Am Ddim. Os nad oes cytundeb yn bosibl, bydd modd gwahardd am gyfnod byr yn unig a dylid ailedrych ar y sefyllfa yn rheolaidd i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn ddull gweithredu priodol. Rhaid i waharddiad amser cinio gael ei ystyried yn chwarter diwrnod ysgol.

**Newid math y gwaharddiad**
Mewn achosion eithriadol, fel arfer ar ôl i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg, gall gwaharddiad gael ei ymestyn neu ei droi'n waharddiad parhaol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r Pennaeth ysgrifennu at y rhieni/gwarcheidwaid a/neu'r disgybl unwaith eto er mwyn esbonio'r rheswm dros hyn.

Serch hynny, os yw'r Pennaeth o'r farn bod hyn yn briodol, bydd modd byrhau gwaharddiad cyfnod penodol neu dynnu gwaharddiad parhaol yn ôl cyn gwrandawiad y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion. Gall yr olaf ddilyn cyngor penodol ynghylch priodoldeb y penderfyniad neu sicrhau cefnogaeth ychwanegol neu ddarpariaeth amgen.

## 1.8 Ystyriaethau Pwysig

Yn rhan o'r broses o sicrhau nad yw gwaharddiadau niferus a hir yn cael effaith negyddol ar addysg disgyblion, yn enwedig yn achos y rhai sydd fwyaf agored i newid, dylai prosesau gweithdrefnol penodol gael eu dilyn:

- Dylai pob gwaharddiad gael ei gofnodi ar System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (SIMS), ar y gofrestr bresenoldeb ac o dan waharddiadau (edrychwch ar 2.3).
- Chaiff ysgol ddim gwahardd am gyfnod amhenodol, e.e. hyd nes bod modd trefnu cyfarfod.
- Hyd yn oed yn achos gwaharddiad byr, caiff rhiant/gwarcheidwad neu ddisgybl gwyno i'r Corff Llywodraethu a all benderfynu cynnal cyfarfod ynglŷn â'r mater. Fydd dim modd i'r disgybl ddychwelyd oni bai nad yw'r

gwaharddiad wedi'i gwblhau, ond fe all cofnod gael ei roi ar ffeil addysg y disgybl o'i ystyriaeth.

- Rhaid i'r ysgol fodloni gofynion penodol o ran sicrhau darpariaeth addysg ar gyfer plentyn mewn achosion o wahardd am fwy nag un diwrnod (edrychwch ar 2.2).
- Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cymorth a chanllawiau ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion sy'n codi pryderon am waharddiadau ac yn sgil cyfarfod gyda'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion. Mae cyngor ar gael ynghylch eu hawliau cyfreithiol, ac maen nhw'n cael eu hannog i ystyried sicrhau cymorth eirioli drwy asiantau fel SNAP Cymru.
- Rhaid i'r ysgol hefyd roi gwybod i'r Awdurdod Lleol a'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion am waharddiadau o gyfanswm o 5 diwrnod mewn tymor neu fwy, neu os bydd y disgybl yn absennol yn ystod arholiad cyhoeddus (edrychwch ar 2.4). Mewn achosion o'r fath mae gan yr unigolion perthnasol yr hawl i ofyn am gyfarfod ffurfiol gyda'r pwyllgor, a rhaid cynnal hwn o fewn 50 diwrnod ysgol (edrychwch ar 3.3).
- Rhaid i'r pwyllgor gwrdd i drafod gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na 15 diwrnod mewn tymor os yw cynrychiolaeth wedi cael ei gwneud gan y rhiant/gwarcheidwad neu'r disgybl neu beidio. Byddai rhaid cynnal cyfarfod arall yn sgil pob achos o wahardd yr un disgybl o fewn un tymor.
- Er mwyn glynu wrth arfer gorau, dylai'r Corff Llywodraethu hefyd ymgynnull i drafod disgyblion unigol lle mae disgybl wedi cael ei wahardd am gyfnod penodol am gyfanswm o 25-30 diwrnod mewn blwyddyn ysgol.
- Chaiff ysgol ddim gwahardd disgybl am fwy na chyfanswm o 45 diwrnod mewn blwyddyn ysgol, hyd yn oed os yw'r disgybl yn newid lleoliad yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Fydd gwaharddiad ddim, yn sgil cyrraedd y terfyn hwnnw, yn troi'n un parhaol.
- Os caiff disgybl ei wahardd yn barhaol, rhaid i'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion gwrdd o fewn 15 diwrnod ysgol er mwyn trafod penderfyniad y Pennaeth.
- Os caiff gwaharddiad parhaol ei gadarnhau, bydd gan y person perthnasol gyfle, yn ystod y 15 diwrnod ysgol nesaf, i fynnu adolygiad o'r achos gerbron y Panel Apelio Annibynnol. Rhaid i'r Awdurdod Lleol drefnu hyn. Rhaid i'r cyfarfod gael ei drefnu a'i gynnal o fewn y 15 diwrnod ysgol nesaf.
- Gall Llywodraeth Cymru ystyried cwynion am ddull y pwyllgor disgyblu o gynnal y gweithdrefnau gwahardd, ond does ganddi mo'r hawl i wrthdroi gwaharddiad neu i ystyried penderfyniad y Panel Apelio Annibynnol.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw golwg ar waharddiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth a chyngor priodol o ran rheoli gwaharddiadau, a hefyd bod gweithdrefnau yn cael eu dilyn.
- Bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol o Unedau Cyfeirio Disgyblion os bydd tueddiadau'n dod i'r amlwg sy'n peri pryder. Bydd cyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gyfle i graffu ar ddata gwaharddiadau yn rheolaidd.
- Rhaid i ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ddarparu data gwaharddiadau ar gyfer yr Awdurdod Lleol gan eu crynhoi a'u cyflwyno mewn adroddiadau bob tymor a bob blwyddyn. Os bydd nifer y disgyblion

y mae ysgol wedi'u gwahardd yn peri pryder, gall yr ysgol honno gael cymorth ac ymweliadau her er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.

## 1.9 Disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

Heblaw bod amgylchiadau tra eithriadol, dylai ysgolion osgoi gwahardd disgyblion yn barhaol sydd â datganiadau ADY. Gallai hyn gynnwys Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Dylen nhw hefyd wneud pob ymdrech i osgoi gwahardd disgyblion sy'n derbyn cymorth cynlluniau Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, neu sydd wrthi'n cael ei asesu ar gyfer datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Dylai ysgolion geisio pob modd ymarferol o gadw'r disgybl yn yr ysgol, a dylen nhw sicrhau eu bod wedi mabwysiadu dull cadarn a graddol o ymateb gan fodloni gofynion AAA. Yn rhan o hyn dylai'r ysgol geisio cyngor yr Awdurdod Lleol ac arbenigwyr, gan gynnwys atgyfeirio'r disgybl at y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad. Fel arall, gallai wneud cais i'r Awdurdod Lleol am asesiad statudol os bydd yn briodol. Yn achos disgybl sydd â datganiad, dylai'r ysgol gadw mewn cysylltiad agos â'r Awdurdod Lleol i drafod cynnal adolygiad ffurfiol o ddatganiad y disgybl. Pan fo disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol, dylai'r Pennaeth ddefnyddio'r cyfnod rhwng penderfynu yn y lle cyntaf a chyfarfod y pwyllgor disgyblu i weithio gyda'r Awdurdod Lleol. Dylai ystyried p'un a oes modd newid y ddarpariaeth yn y datganiad drwy gynnal adolygiad blynyddol brys. Os yw hyn yn bosibl, dylai'r gwaharddiad, fel arfer, gael ei dynnu yn ôl.

## 1.10 Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cydgrynhoi ac yn disodli’r ddeddfwriaeth flaenorol ar wahaniaethu yng Nghymru, Lloegr a’r Alban. Yn sgil Deddf 2010, mae modd gwahardd disgyblion sydd â nodweddion gwarchodedig o hyd ond does gan ysgolion mo'r hawl i wahardd disgyblion *ar sail* unrhyw nodweddion gwarchodedig (e.e. anabledd neu hil), nac i wahaniaethu'n anghyfreithlon yn ystod y broses o wahardd. Mae hyn yn berthnasol i bob gwaharddiad, boed yn barhaol neu'n gyfnod penodol.

Mae'n anghyfreithlon gwahardd disgybl â nodwedd warchodedig am ymddygiad na fyddai disgybl heb nodwedd warchodedig yn cael ei wahardd amdano. Er enghraifft, os bydd disgybl anabl yn cael ei wahardd am ymddygiad sy'n gysylltiedig â'i anabledd, gallai fod yn anghyfreithlon oni bai fod yr ysgol yn gallu cyfiawnhau ei wahardd drwy ddangos bod hynny'n fodd cymesur o gyflawni nod dilys.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu'n gryf bod ysgolion a'r rheiny sy'n rhan o benderfyniadau ac apeliadau ynglŷn â gwahardd yn bwrw golwg ar y canllaw a'r cod ymarfer. Mae'r rhain ar gael ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (Ar gael yn Saesneg yn unig). Ewch i www.equalityhumanrights.com.

## 1.11 Apeliadau yn sgil cyhuddiad o wahaniaethu

Bydd apeliadau yn erbyn gwaharddiadau parhaol yn cael eu clywed gan y Panel Apelio Annibynnol pan fo gwahaniaethu ar sail anabledd wedi cael ei honni. Caiff honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd eu clywed gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) mewn achosion o wahardd cyfnod penodol. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cynnig nifer o ganllawiau a chod ymarfer i gynorthwyo ysgolion i ddeall a chydymffurfio â'u dyletswyddau yn sgil Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys eu dyletswyddau mewn perthynas â gwaharddiadau. Rhaid i ysgolion ddeall y canllawiau yma yn drylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

## 1.12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Rhaid i fuddiannau'r plentyn fod yn ganolog mewn unrhyw benderfyniad o wahardd, ac mewn gweithdrefnau gwahardd sy'n ei ddilyn. Mae hyn yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

## 1.13 Plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal

Fel sydd wedi'i nodi yn y cyflwyniad, mae perygl y bydd cyflawniad plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal yr Awdurdod Lleol yn isel. Dylai ysgolion ddefnyddio pob modd posibl o gadw'r disgybl yn yr ysgol, a dylen nhw geisio cyngor yr Awdurdod Lleol ac arbenigwyr eraill fel y bo'n briodol. Ym mhob achos, dylai adrannau'r Gwasanaethau i Blant gael eu cynnwys ar y cyfle cyntaf a gweithio gyda'r ysgol i osgoi'r angen i wahardd y disgybl. Lle bo tuedd broblemus i wahardd disgyblion o'r fath, dylid atgyfeirio at Garfan Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.

Os caiff disgyblion eu gwahardd, bydd gan unrhyw un sy'n gweithredu fel rhiant/gwarcheidwad yr hawl i gyflwyno sylwadau ac apelio. Mae diffiniad 'rhiant' yn Neddf Addysg 1996 yn eang ac mae'n cynnwys y rheiny sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am y plentyn. Bydd hyn yn cynnwys yr Awdurdod Lleol pan fo gorchymyn gofal wedi cael ei roi mewn perthynas â'r plentyn ac unrhyw berson (e.e. rhiant maeth) sy'n rhoi llety i'r plentyn. Mae gan rieni biolegol yr hawl i gwyno neu i apelio yn ogystal. Oherwydd hyn, mae'n bosibl y bydd mwy na dau riant/warcheidwad y bydd raid i'r ysgol eu hysbysu ynghylch gwaharddiad, ac a fydd â'r hawl i gwyno neu apelio.

Dylai gweithwyr cymdeithasol gael gwybod am achosion o'r fath o wahardd plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal bob amser. Dylai ysgolion hefyd sicrhau bod modd i blant o'r fath ddefnyddio gwasanaethau eirioli, fel bod ganddyn nhw fodd o leisio eu barn. Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r Gwasanaethau i Blant yn cynnig hyn. Maen nhw'n comisiynu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a disgyblion sydd ag AAA. Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.

## 1.14 Tynnu disgyblion o’r ysgol o dan amgylchiadau eithriadol

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd gwaharddiad ffurfiol yn addas. Er enghraifft, disgybl sydd wedi cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd difrifol a ddigwyddodd y tu allan i awdurdod y Pennaeth, neu achos lle nad oes digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwaharddiad. Yn sgil cytundeb â'r rhieni/gwarcheidwaid, gall Pennaeth ganiatáu i blentyn fod yn absennol am gyfnod penodol.

Posibilrwydd arall sy'n llai cyffredin yw trefnu bod disgybl yn cael ei addysg mewn lleoliad arall drwy ddefnyddio pŵer wedi'i drosglwyddo i'r Corff Llywodraethu (neu'r pwyllgor rheoli yn achos Unedau Cyfeirio Disgyblion). Gall hyn ddigwydd heb gydsyniad rhieni, ond dylai rhieni gael gwybod amdano (edrychwch ar adran 29(3) o Ddeddf Addysg 2002). Ddylai'r pŵer yma ddim cael ei ddefnyddio er mwyn rhoi darpariaeth addysg/hyfforddiant oddi ar safle'r ysgol at ddiben gwella ymddygiad.

Yn y naill achos a'r llall, dylai'r ysgol sicrhau bod addysg llawn amser y disgybl yn parhau pan nad yw ar safle'r ysgol. Gallai hyn gynnwys gwneud cais i leoliad addysg heblaw yn yr ysgol er mwyn trefnu addysg gartref. Nid gwaharddiad o'r ysgol at ddibenion disgyblu yw trefniadau o'r fath, a rhaid eu hadolygu'n rheolaidd gan gynnwys y rhieni/gwarcheidwaid. Bydd lleoliad addysg heblaw yn yr ysgol yn cadw llygad ar y trefniadau'n ofalus a bydd y panel addysg heblaw yn yr ysgol hefyd yn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'n bwysig bod pob gweithred a threfniant yn cael eu cofnodi er mwyn osgoi'r posibilrwydd y caiff y gwaharddiad ei ystyried yn un anghyfreithlon.

## 1.15 Tynnu disgyblion oherwydd rhesymau meddygol

Gall penaethiaid anfon disgybl adref os yw wedi cael diagnosis o glefyd hysbysadwy, ac oherwydd hynny mae iechyd a diogelwch disgyblion eraill a staff mewn perygl uniongyrchol a difrifol. Bydd hyn ar ôl ymgynghori â'i rieni/gwarcheidwaid ac ag arbenigwr ym maes iechyd (nyrs ysgol, er enghraifft). Nid gwaharddiad yw hwn, a dylai gael ei gofnodi yn absenoldeb awdurdodedig.

## 1.16 Cydweithrediad rhieni

Os bydd rhiant/gwarcheidwad yn gwrthod cydweithredu â gwaharddiad ffurfiol drwy anfon y disgybl i’r ysgol ar ôl iddo gael ei wahardd, neu'n gwrthod ei gasglu neu drefnu iddo gael ei gasglu amser cinio, rhaid i’r ysgol ystyried diogelwch y disgybl wrth benderfynu pa gamau i’w cymryd. Ddylai gwaharddiad ddim cael ei weithredu heb sicrhau diogelwch y disgybl. Os bydd pob ymdrech i ddatrys y mater gyda’r rhieni/gwarcheidwaid yn methu, dylai’r ysgol ystyried cysylltu â’r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a gofyn am gyngor yr Awdurdod Lleol ynghylch pa bosibiliadau cyfreithiol sydd ar gael.

## 1.17 Ymddygiad y tu allan i'r ysgol

Dylai ymddygiad disgyblion fod yn gydnaws â pholisi ymddygiad yr ysgol, ni waeth p'un a ydyn nhw yn yr ysgol neu'n ei chynrychioli hi y tu allan i'r ysgol (e.e. ar deithiau ysgol, cystadlaethau chwaraeon neu brofiad gwaith). Rhaid ymateb i ymddygiad amhriodol mewn amgylchiadau o'r fath fel petai wedi digwydd yn yr ysgol. Yn achos ymddygiad gwael y tu allan i'r ysgol a heb fod yn rhan o fusnes ysgol, gall Pennaeth wahardd disgybl os oes cyswllt clir rhwng yr ymddygiad hwnnw a chynnal ymddygiad da a disgyblaeth ymhlith yr holl ddisgyblion. Dyma enghreifftiau posibl o hyn:

- cynnal ymddygiad da ar wasanaeth cludiant, ymweliadau addysgol neu leoliadau eraill, gan gynnwys profiad gwaith a chyrsiau coleg
- sicrhau ymddygiad nad yw'n fygythiad i iechyd a diogelwch disgyblion, staff neu aelodau o'r cyhoedd
- rhoi tawelwch meddwl i ddisgyblion sy'n teimlo eu bod o dan fygythiad neu sy'n cael ofn gan ymddygiad nifer fechan o'u cyfoedion
- sicrhau ei bod yn amlwg i aelodau o'r cyhoedd bod yr ysgol yn gofalu am ddisgyblion ac yn eu rheoli, sydd yn ei dro'n diogelu enw da'r ysgol
- diogelu aelodau unigol o staff rhag ymddygiad peryglus disgyblion yr ysgol pan na fyddan nhw ar y safle

## Adran 2: Y Broses o Wahardd

Dylai ysgolion ddilyn gweithdrefnau'r gyfraith a chanllawiau statudol. Cafodd y rhain eu datblygu i sicrhau tegwch a dulliau agored o ymdrin â gwaharddiadau.
Mae gofynion gweithdrefnol Llywodraeth Cymru yn amrywio yn ôl hyd y gwaharddiad. Gallai'r siartiau llif ar dudalennau cefn canllawiau Llywodraeth Cymru fod o gymorth i ysgolion o ran sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dilyn yn gywir. Yn gefn i ysgolion gynllunio ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion, mae rhestrau gwirio yn Atodlen B y canllawiau yma. Os oes angen rhagor o gyfarwyddyd a chyngor, dylai ysgolion drafod y mater â'u Hathro Cynnal Ymddygiad neu gysylltu â'r Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth. Os yw gwaharddiad parhaol yn cael ei ystyried, rydyn ni'n eich argymell yn gryf i drafod y mater â'r Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth cyn dod i benderfyniad terfynol.

### 2.1 Rhoi gwybod i'r 'unigolion perthnasol' am y gwaharddiad

Pan fo Pennaeth neu athro sy'n rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion yn gwahardd disgybl, rhaid iddo roi gwybod i'r unigolion perthnasol yn syth (edrychwch ar Cyflwyniad: Diffiniadau/Geirfa) ac anfon llythyr swyddogol yn syth ar ôl hynny.
Dylai'r hysbysiad drwy lythyr gael ei roi yn ôl yr amserlenni canlynol:

- os yw'r disgybl yn cael ei wahardd yn ystod sesiwn y bore, rhaid anfon yr hysbysiad ysgrifenedig cyn dechrau sesiwn y prynhawn
- os yw'r disgybl yn cael ei wahardd yn ystod sesiwn y prynhawn, rhaid anfon yr hysbysiad erbyn diwedd y sesiwn prynhawn honno

Dylai'r hysbysiad nodi:

- y rhesymau dros benderfyniad y Pennaeth
- a yw'r gwaharddiad am gyfnod penodol neu'n un parhaol
- (yn achos gwaharddiad cyfnod penodol, hyd y gwaharddiad - edrychwch ar 1.6)
- y trefniadau ar gyfer dychwelyd, gan gynnwys y dyddiad, yr amser a chynlluniau ar gyfer unrhyw gyfarfodydd â'r rhieni
- y trefniadau penodol yn achos gwaharddiadau yn ystod amser cinio, yn enwedig os oes gan y plentyn hawl i brydau ysgol am ddim
- y dyddiad y mae'n weithredol a manylion perthnasol am ymddygiad y disgybl yn achos gwaharddiad parhaol
- y trefniadau ar gyfer parhau gydag addysg (edrychwch ar yr isod)
- yr hawliau a'r gweithdrefnau o ran cwyno i'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion
- y dyddiad olaf ar gyfer unrhyw wrandawiad Pwyllgor Disgyblu Disgyblion gorfodol
- yr hawl i weld cofnod addysg y disgybl
- manylion cyswllt swyddog yr Awdurdod Lleol sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad

Po fwyaf yw effaith gwaharddiad unigol (neu sawl gwaharddiad), y mwyaf yw hawliau'r unigolion i gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor disgyblu. Mae'r llythyron enghreifftiol yn Atodiad A yn ystyried hyn, a dylid eu dewis yn unol â hynny.

Mewn amgylchiadau eithriadol pan fo'r penderfyniad wedi cael ei wneud i ymestyn y gwaharddiad neu i'w droi'n un parhaol, rhaid i'r Pennaeth ysgrifennu at y rhieni/gwarcheidwaid a/neu'r disgybl unwaith eto er mwyn esbonio'r rhesymau dros ei newid gan ddefnyddio'r llythyr enghreifftiol priodol. Os caiff ei droi'n waharddiad parhaol, bydd yr amserlenni ynghylch y trefniadau ar gyfer y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion yn cychwyn o'r dyddiad hwnnw (edrychwch ar 2.3).

Dylai'r manylion am bob achos o wahardd gael eu trin yn gwbl gyfrinachol gan bob un sy'n rhan o'r broses.

## 2.2 Darpariaeth addysg yn ystod gwaharddiadau

Rhaid i ysgolion fodloni gofynion penodol o ran sicrhau bod disgybl yn cael cymorth addysgol yn ystod gwaharddiad. Bydd hyn yn sicrhau nad yw ei addysg yn dioddef, a'i fod yn gallu ailymuno ag addysg y brif ffrwd yn llwyddiannus.

**Gosod a marcio gwaith**

Ymhob achos o wahardd sy'n hwy na diwrnod, dylid sefydlu trefniadau ar gyfer darparu gwaith ar unwaith. Bydd y rhain yn cael eu nodi yn y llythyr gwahardd swyddogol. Dylai'r rhieni/gwarcheidwaid drefnu bod y gwaith yn cael ei gasglu a'i anfon yn ôl. Rhaid i'r ysgol sicrhau bod y gwaith yn cael ei farcio a bod rhagor o waith yn cael ei osod hyd nes y bydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion yma. Dylai fod gan benaethiaid bolisi ysgrifenedig ar drefniadau ar gyfer ailintegreiddio disgyblion yn yr ysgol ar ôl gwaharddiad cyfnod penodol, a dylai hyn gynnwys unrhyw waith a gafodd ei gwblhau yn ystod y gwaharddiad. Serch hynny, does gan ysgolion mo'r hawl i wrthod disgybl rhag dychwelyd i'r ysgol ar sail methu â chwblhau gwaith.

**Gwaharddiadau hir a pharhaol**

Os bydd Pennaeth yn gwahardd disgybl am fwy na 15 diwrnod ysgol ar y tro, rhaid cynllunio dulliau o fynd i'r afael ag anhawsterau'r disgybl a sicrhau bod ei addysg yn parhau. Fydd hi ddim yn dderbyniol gosod gwaith i'w wneud yn annibynnol yn unig ar ôl y cyfnod yma. Bydd hi'n ofynnol i ysgolion wneud atgyfeiriadau i'r panel addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer cael addysg yn y cartref. Yr ysgol fydd yn gyfrifol am gost addysg y disgybl yn unol â'r polisi lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Lleol ac ysgolion weithio tuag at sicrhau bod pob disgybl sy'n cael ei wahardd am fwy na 15 diwrnod yn cael addysg addas, amser llawn. Os nad yw hyn yn bosibl (mewn achosion eithriadol), oherwydd amgylchiadau disgybl unigol, dylai fod cynlluniau ar waith ar gyfer darpariaeth amser llawn a phriodol ynghyd ag adolygiadau rheolaidd o'r cynnydd.

Oherwydd hyn, rhaid i'r ysgol gysylltu â'r Awdurdod Lleol ar y cyfle cyntaf, ac yn ddelfrydol dylai hyn fod cyn i'r disgybl gael ei wahardd. Rhaid i'r ddau benderfynu ar y cyd ar y ffordd orau o fynd ati i ddarparu addysg amser llawn ar gyfer y disgybl a fydd yn hwyluso'r broses o'i ailintegreiddio ar ddiwedd y gwaharddiad. Rhaid i'r ysgol gynnwys asiantaethau perthnasol eraill yn y broses yma fel y Gwasanaethau Seicoleg ym maes Addysg, neu arbenigwyr ym maes iechyd.

Bydd disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol wedi'u cofrestru gyda'r ysgol o hyd, hyd nes bod y broses o gyflafareddu ac apelio wedi dod i ben. Gallai hyn gymryd hyd at 6 wythnos a rhaid i'r ysgol barhau i ddarparu cymorth addysgol yn ystod y cyfnod yma. Felly, mae'r un peth yn cael ei ddisgwyl o ran gwneud cais yn syth am addysg yn y cartref.

Os yw proses apelio yn mynd rhagddi neu beidio, bydd yr Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth yn trafod opsiynau eraill â'r rhieni/gwarcheidwaid o ran addysg brif ffrwd amgen er mwyn sicrhau nad oes oedi yn y broses o wneud cais.

Os oes angen lleoliad amgen (oherwydd penderfyniad y rhiant neu broses y Panel Apelio Annibynnol), bydd hi'n ofynnol llenwi ffurflen Bwriad i Drosglwyddo er mwyn rhoi'r dystiolaeth briodol i'r Panel Protocol Mynediad Teg i hwyluso'r broses yma.

## 2.3 Cofnodi Gwaharddiadau

Dylai disgybl sydd wedi'i wahardd gael ei nodi'n absennol â chaniatâd yn y gofrestr presenoldeb, drwy ddefnyddio cod 'E'. Os oes trefniadau ar gyfer darpariaeth amgen wedi cael eu gwneud, dylai cod priodol gael ei ddefnyddio, er enghraifft, Cod 'B' (addysg oddi ar y safle) neu 'D' (cofrestru deuol).

Os yw disgybl sydd ar gofrestr dau leoliad yn cael ei wahardd o un ohonyn nhw, rhaid i hynny gael ei nodi yng nghofrestrau'r ddau (yn ôl yr arfer), hynny yw, dylai Cod 'E' gael ei ddefnyddio ar gyfer y sesiwn/sesiynau mae'r disgybl wedi cael ei wahardd ohoni hi / ohonyn nhw yn y ddwy ddarpariaeth. Serch hynny, dylid cofnodi'r gwaharddiad ym modiwl gwaharddiadau System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion yr ysgol neu'r Uned Cyfeirio Disgyblion lle digwyddodd e, ac felly, bydd y gwaharddiad dim ond yn cael ei gyfrif yn erbyn y lleoliad a gyhoeddodd y gwaharddiad. Os yw unrhyw waharddiad yn cael ei rannu gyda darpariaeth arall, rhaid iddo gael ei nodi'n waharddiad rhan amser a rhaid i'r hyd gael ei nodi â llaw yn y modiwl gwaharddiadau.

Mae'r disgyblion hynny sydd ar dreial yn rhan o symudiad wedi'i reoli yn cael eu cofnodi fel 'Gwestai'. Oherwydd hynny, os bydd y disgybl yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n awgrymu y byddai gwahardd yn gam disgyblu priodol, rhaid atgyfeirio'r mater at y brif ysgol a rhaid i bennaeth yr ysgol honno roi unrhyw waharddiad ar waith a'i reoli.

Darparu gofal ar gyfer disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd fydd prif ystyriaeth archwiliadau rheolaidd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Oherwydd hyn, dylai ysgolion gadw mewn cysylltiad agos â lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol er mwyn sicrhau bod absenoldebau o ddarpariaeth megis addysg yn y cartref yn cael eu cofnodi'n gywir.

Os yw'r disgybl yn cael ei wahardd yn ystod y bore, bydd hyn yn cyfrif fel hanner diwrnod. Os bydd hyn yn digwydd yn ystod sesiwn y prynhawn dylid diystyru diwrnod y gwaharddiad oni bai fod y disgybl yn cael dychwelyd y diwrnod canlynol. Yn yr amgylchiadau yma, dylai'r ysgol ddilyn yr un broses â phe bai'r gwaharddiad yn digwydd yn ystod sesiwn y bore.

Caiff gwaharddiad yn ystod amser cinio ei ystyried yn chwarter diwrnod. Bydd raid rhoi manylion am waharddiadau nad ydyn nhw'n olynol â llaw.

Yn achos gwaharddiad parhaol, mae'r disgybl yn aros ar gofrestr yr ysgol nes bod:

- y rhiant/gwarcheidwad wedi rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol na fydd yn apelio
- y terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl wedi dod i ben a dyw'r person perthnasol ddim wedi apelio (15 diwrnod ar ôl iddo gael gwybod am ganlyniad cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion)
- y Panel Apelio Annibynnol wedi cadarnhau penderfyniad y Pennaeth.

Yn ystod y cyfnod yma, bydd y disgybl yn cael ei gofnodi fel 'E' oni bai ei fod yn cael darpariaeth arall megis addysg yn y cartref lle byddai'n cael ei gofnodi'n 'Ds'. Fydd y marciau 'E' yma ddim yn cyfrif tuag at gyfanswm y diwrnodau gwahardd a fydd yn cael ei adrodd i (a chan) yr Awdurdod Lleol.

Os yw Gwaharddiad Cyfnod penodol yn cael ei droi'n waharddiad parhaol, bydd modd ei ddileu a'i ddisodli ond bydd y dyddiadau ynghylch cynnal y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion fel arfer yn rhedeg o ddyddiad troi'r gwaharddiad yn un parhaol.

### 2.4 Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a'r Awdurdod Lleol

Mae'n ofynnol i'r ysgol gofnodi'r holl waharddiadau wrth iddyn nhw ddigwydd a hysbysu'r Awdurdod Lleol drwy'r System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion. Bydd gwaharddiadau yn cael eu hadrodd i'r Corff Llywodraethu unwaith y tymor.

Yn ogystal a hynny, o fewn un diwrnod ysgol, rhaid i'r Pennaeth anfon adroddiad (edrychwch ar yr isod) at y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a'r Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth mewn perthynas â'r canlynol:

- gwaharddiadau a fydd yn golygu bod disgybl yn cael ei wahardd am gyfanswm o fwy na phum diwrnod ysgol mewn unrhyw dymor
- unrhyw achosion o wahardd yr un disgybl yn yr un tymor ar ôl hynny
- gwaharddiadau a fyddai'n peri i'r disgybl golli arholiad cyhoeddus
- gwaharddiadau parhaol

Os yw disgybl sy'n cael ei wahardd yn barhaol yn byw y tu allan i Awdurdod Lleol yr ysgol, rhaid i'r Pennaeth hefyd roi gwybod i Awdurdod Lleol cartref y disgybl sydd wedi'i wahardd, fel bydd modd iddo wneud trefniadau ar gyfer addysg barhaus y disgybl.

## 2.5 Adroddiadau Gwahardd

Rhaid i adroddiadau gwahardd gynnwys:

- enw, oedran, dyddiad geni, rhyw ac ethnigrwydd y disgybl
- p'un a oes gan y disgybl ddatganiad o AAA, a yw'n cael ei asesu ar gyfer datganiad o'r fath, neu a yw'n cael cymorth rhaglen Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy
- p'un a yw'r disgybl yng ngofal yr Awdurdod Lleol
- hyd y gwaharddiad
- y rheswm dros y gwaharddiad

Mae ffurflen ar gyfer adroddiadau gwahardd ar gael yn Atodiad B at y diben yma. Mae'n cynnwys y codau i'w defnyddio wrth gofnodi gwaharddiadau ar y System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion. I sicrhau casglu data cywir, osgowch *'arall'* lle bynnag y bo'n bosibl.

.

## Adran 3: Y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion

### 3.1 Swyddogaeth a chyfrifoldebau'r pwyllgor disgyblu

Mae adolygu gwaharddiadau yn yr ysgol yn rhan o swyddogaeth y pwyllgor. Serch hynny, y Pennaeth sy'n penderfynu p'un a oes angen gwahardd, ac mae'r pwyllgor yn cwrdd i benderfynu p'un a ddylai gadarnhau'r penderfyniad hwnnw yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig felly bod gan aelodau'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion ddealltwriaeth fanwl o'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y canllawiau hynny sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Pennaeth a'u cyfrifoldebau nhw'u hunain.

Dylai'r aelodau gael eu hyfforddi er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu dyletswyddau'n gywir. Fel arall, mae'n bosibl y bydd apeliadau yn erbyn gwaharddiadau yn llwyddiannus, neu y caiff y mater ei ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod Lleol yn trefnu sesiynau hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion a llywodraethwyr ar faterion ynglŷn â gwahardd, a dylai aelodau o'r pwyllgor disgyblu gael eu hannog i fynychu'r rhain. Mae'r rhain yn cael eu trefnu a'u hyrwyddo gan yr adran Cymorth i Lywodraethwyr. Fel arall, mae modd i hyfforddiant gael ei drefnu gan y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad, yn ôl y galw.

### 3.2 Cyfansoddiad y pwyllgor

Rhaid i'r pwyllgor gynnwys tri neu bump aelod sydd eisoes yn aelodau o'r Corff Llywodraethu. Does dim modd i'r Pennaeth fod yn rhan o'r pwyllgor (ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion, edrychwch ar 3.4). Dylai'r corff, lle bo modd, gynnwys amrywiaeth o fathau o lywodraethwyr. Mae gallu aelodau'r pwyllgor disgyblu i gwrdd ar fyr rybudd pan fo disgybl wedi cael ei wahardd hefyd yn ystyriaeth bwysig.

Pan fo gan lywodraethwr gysylltiad â'r disgybl neu'r digwyddiad a allai yn rhesymol godi amheuaeth am ei allu i fod yn ddiduedd, ddylai ddim bod yn rhan o'r gwrandawiad hwnnw.

Dylai'r Corff Llywodraethu bennu Clerc yn aelod o'r pwyllgor disgyblu sydd yn sgil ei brofiad yn gallu rhoi cyngor ar weithdrefnau gwahardd, bod yn gyfrifol am y broses weinyddu, cynghori'r pwyllgor a chynnal cyfarfodydd.
Yn RhCT, mae gwasanaeth Clerc yn cael ei ddarparu ar gyfer ysgolion cynradd gan yr adran Cymorth i Lywodraethwyr.

### 3.3 Cyfarfodydd y pwyllgor disgyblu

Yn achos unrhyw ddisgybl sy'n cael ei wahardd am gyfanswm o bum diwrnod neu lai mewn tymor:

- Dylai'r pwyllgor disgyblu ystyried unrhyw gwynion gan y rhiant/gwarcheidwad a'r disgybl.
- Gall cadeirydd y pwyllgor disgyblu gytuno i gynnal cyfarfod os yw'r rhiant/gwarcheidwad yn gofyn am hynny i drafod y gwaharddiad.

Does dim terfyn amser cyfreithiol o ran ystyried gwaharddiadau o'r fath, ond dylai'r cadeirydd geisio ymateb yn syth i gais gan y rhiant/gwarcheidwad.

Os yw disgybl wedi cael ei wahardd am fwy na phum diwrnod ysgol mewn un tymor (gan gynnwys yn ystod amser cinio), ond llai na 15 diwrnod ysgol:

- os yw'r rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl yn gofyn am gael cyfarfod, rhaid i'r Panel Disgyblu Disgyblion ystyried y gwaharddiad rhwng y chweched a'r pymthegfed diwrnod ysgol ar ôl cael yr hysbysiad am y gwaharddiad gan y Pennaeth.

Mewn achosion o wahardd yn barhaol neu o wahardd am fwy na 15 diwrnod ysgol mewn un tymor (gan gynnwys yn ystod amser cinio):

- rhaid i'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion gynnal cyfarfod, rhwng y chweched a'r pymthegfed diwrnod ysgol ar ôl cael yr hysbysiad am y gwaharddiad, i drafod y gwaharddiad.
- Rhaid i'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion ystyried pob gwaharddiad dilynol ar gyfer yr un disgybl sy'n cael ei roi o fewn yr un tymor.

Mewn achos lle mae disgybl am fethu arholiad cyhoeddus ac nad oes modd cytuno ar drefniadau amgen, dylai'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion gwrdd, os yw'n ymarferol, cyn y dyddiad y mae'r disgybl i fod i sefyll yr arholiad.
Os na, gall y cadeirydd ar ei ben ei hun ystyried y gwaharddiad a phenderfynu a ddylid adfer y disgybl ai peidio.

Os na fydd y pwyllgor yn cymeradwyo penderfyniad y Pennaeth, ac os nad yw'r gwaharddiad wedi dod i ben, gall gyfarwyddo adferiad - fel arall, bydd modd iddo roi cofnod o'i ystyriaethau ar gofnod addysg y disgybl yn unig. Mewn rhai achosion. Gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y gwaharddiad, gall y pwyllgor disgyblu benderfynu caniatáu i ddisgybl ddod i mewn i'r ysgol er mwyn sefyll arholiad cyhoeddus.

**Cynllunio a pharatoi**

Rhaid i'r Clerc neu'r cadeirydd wneud y canlynol:

- gwahodd y rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl, y Pennaeth a'r Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth i gyfarfod ar adeg sy'n gyfleus i bob un, gan gynnwys eiriolwyr posibl a chynnal y cyfarfod o fewn 15 diwrnod ysgol.
- gofyn am unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig (gan gynnwys datganiadau tystion) ymhell cyn y cyfarfod
- rhoi unrhyw adroddiadau ysgrifenedig (gan gynnwys datganiadau tystion), gwybodaeth berthnasol a rhestr o'r rheiny a fydd yn bresennol i bob parti (gan gynnwys y disgybl os yw'n briodol) (edrychwch ar Atodiad C)
- cynnig cyfle i farn y disgybl sydd wedi'i wahardd gael ei hystyried yn y cyfarfod, waeth beth fo'i oedran - gall hyn ddigwydd wyneb yn wyneb, mewn ysgrifen neu mewn unrhyw fformat ymarferol arall

Mae'n bwysig bod y rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl yn bresennol os dyna'u dymuniad, ond does dim rhaid i hynny ddigwydd. Er y dylai unrhyw gyfarfod, o fewn rheswm, gael ei ohirio er mwyn ei gwneud hi'n bosibl iddyn nhw ddod, bydd modd cynnal y cyfarfod heb eu presenoldeb.

Dylai'r pwyllgor disgyblu ganiatáu i'r rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl ddod yng nghwmni ffrind neu gynrychiolydd cyfreithiol os byddan nhw am wneud hynny. Os na fydd disgybl oedran addysg orfodol yn dod yng nghwmni ei riant/warcheidwad, dylai'r Awdurdod Lleol wneud ei orau glas i drefnu bod cynrychiolydd yn siarad ar ran y disgybl. Mae hyn yn arbennig o bwysig os nad yw'r disgyblion yn ddigon aeddfed neu'n ddigon galluog i gynrychioli eu hunain yn effeithiol. Mae gan y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad ragor o fanylion am wasanaethau eirioli.

Does dim rhaid i'r Awdurdod Lleol anfon cynrychiolydd i bob gwrandawiad pwyllgor disgyblu yn yr ardal. Serch hynny, dylai'r Awdurdod Lleol anfon cynrychiolydd i bob cyfarfod gwaharddiad parhaol, ac i gyfarfodydd gwaharddiadau cyfnod penodol hirach pan fo modd.

Rhaid i'r pwyllgor gydymffurfio â'r terfynau amser statudol. Bydd yn ofynnol iddo gyflawni'r ddyletswydd dan sylw o hyd os bydd yn methu â chydymffurfio. Yn yr un modd, bydd ei benderfyniad yn ddilys ni waeth p'un a gafodd ei wneud y tu allan i'r terfyn amser.

Gall mwy nag un gwaharddiad gael ei ystyried mewn cyfarfod Pwyllgor Disgyblu Disgyblion, cyhyd â bod y rhain yn digwydd o fewn y terfynau amser statudol sy'n berthnasol i bob un.

**Y dull o gynnal y cyfarfod**

Dylai'r gwrandawiad fod yn anffurfiol i sicrhau bod pawb sy'n dod, y rhieni a'r disgyblion yn enwedig, yn teimlo'n gyfforddus a bod modd iddyn nhw ddweud eu dweud yn effeithiol. Dylai'r Clerc gofnodi'r hyn sy'n cael ei ddweud, pwy sy'n bresennol, y pleidleisiau a'r penderfyniad.

Ar ddechrau'r gwrandawiad, dylai'r cadeirydd amlinellu'r weithdrefn a fydd yn cael ei dilyn, ac egluro swyddogaeth gyfyngedig y Clerc.

Dylai'r Clerc, ar ôl cyflwyno pob person sy'n bresennol, nodi ym mha drefn y bydd pawb yn cyflwyno ei safbwynt.

Fel rheol, byddai'r Pennaeth yn rhoi'r rhesymau dros y gwaharddiad ac unrhyw ddulliau o ymyrryd sydd wedi'u rhoi ar waith i roi cymorth i'r disgybl ac i'w helpu i reoli ei ymddygiad.

Bydd gan y disgybl a/neu'r rhiant/gwarcheidwad y cyfle i ddweud eu dweud, a allai gynnwys dadlau yn erbyn unrhyw bwyntiau neu awgrymu amgylchiadau sy'n lleihau bai.

Gall y pwyllgor disgyblu ofyn i unrhyw swyddog Awdurdod Lleol sy'n bresennol am ddatganiad neu am gyngor technegol neu weithdrefnol.

Ar ôl pob cyflwyniad, bydd modd i bob parti ofyn cwestiynau fel bydd modd iddyn nhw ddeall y ffeithiau neu gael eglurhad. Rhaid rhoi digon o amser i bob parti gyflwyno ei safbwynt.

**Dod i benderfyniad**

Dim ond y Pennaeth sy'n cael gwahardd disgyblion. Adolygu gwaharddiadau yw swyddogaeth y pwyllgor disgyblu yn unig. Does dim modd i'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion newid y gwaharddiad mewn unrhyw ffordd, er enghraifft, drwy ymestyn gwaharddiad cyfnod penodol neu drwy newid gwaharddiad cyfnod penodol yn waharddiad parhaol.

Dim ond cadarnhau gwaharddiad neu ganiatáu i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol y caiff y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion ei wneud. Caiff y pwyllgor bennu'r dyddiad y bydd yn dychwelyd. Os na fydd modd i'r pwyllgor ganiatáu i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol, oherwydd bod y gwaharddiad wedi dod i ben eisoes, gall gynnwys copi o'r canfyddiadau yng nghofnod ysgol y disgybl.

Dylai'r pwyllgor disgyblu fod yn effro i'r ffaith y gall apêl gael ei chyflwyno i'r Panel Apelio Annibynnol mewn achosion o wahardd yn barhaol. Caiff penderfyniad y pwyllgor ei adolygu, a chaiff holl ffeithiau'r achos eu clywed eto, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth newydd y gallai'r rheiny sy'n apelio, neu'r ysgol, ei rhoi.

Dylai'r pwyllgor ofyn i'r partïon eraill sy'n bresennol adael y cyfarfod, fel y gall wneud ei benderfyniad yn breifat. Caiff y Clerc aros gyda'r pwyllgor i'w helpu mewn perthynas â chofnodi'r dystiolaeth a geirio adroddiad o'i benderfyniad.

Wrth wneud penderfyniad, dylai'r pwyllgor ystyried:

- unrhyw gwynion y mae'r rhiant/gwarcheidwad, y disgybl a'r swyddog Awdurdod Lleol wedi'u gwneud
- problemau o ran eglurdeb neu lle mae angen rhagor o fanylion
- p'un a oedd penderfyniad y Pennaeth i wahardd y disgybl yn gyfiawn ar sail y dystiolaeth, yn ôl pwysau tebygolrwydd
- p'un a yw'r Pennaeth wedi cydymffurfio â'r weithdrefn o wahardd ac a yw wedi rhoi digon o ystyriaeth i ganllawiau Llywodraeth Cymru cyn penderfynu gwahardd y disgybl
- polisïau ysgol perthnasol, gan gynnwys polisïau cyhoeddedig yr ysgol ar ymddygiad, cyfleoedd cyfartal, gwrthfwlio, ADY a chydraddoldeb o ran hil
- p'un a yw hyd y gwaharddiad yn addas o gofio'r polisïau yma, neu o'i gymharu â gwaharddiadau am droseddau tebyg yn yr ysgol yma neu yn ysgolion eraill yr awdurdod
- p'un a yw'r ysgol yn gallu dangos bod digon wedi cael ei wneud o ran rhoi cymorth i'r disgybl tuag at wella ei ymddygiad a rheoli risg - dylai ystyriaeth arbennig gael ei rhoi i'r defnydd o Raglenni Cymorth Bugeiliol
- p'un a ddylai unrhyw amgylchiadau sy'n lleihai bai fel bwlio neu bryfocio gael eu hystyried
- p'un a yw'r ysgol wedi ceisio cael cymorth yr Awdurdod Lleol ac a yw wedi ystyried opsiynau eraill.

Os nad yw'r pwyllgor disgyblu yn cytuno â phenderfyniad y Pennaeth, dylai'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol yn syth, neu erbyn dyddiad penodol, lle bo hynny'n ymarferol. Fel rheol, ddylai hyn ddim bod yn fwy na phum diwrnod ysgol ar ôl dyddiad y penderfyniad. Ar ôl i'r pwyllgor disgyblu ddiddymu'r gwaharddiad,

dylai'r ysgol ystyried p'un a fyddai cymorth tymor byr ychwanegol yn helpu'r disgybl i ailintegreiddo'n llwyddiannus.

Os nad yw'n ymarferol caniatáu i'r disgybl ddychwelyd, dylai canlyniad yr adolygiad gael ei nodi yn ei gofnod addysg fel bod modd cyfeirio yn ôl ato.

Os bydd y pwyllgor disgyblu yn penderfynu cadarnhau penderfyniad y Pennaeth i wahardd disgybl am fwy na 15 diwrnod ysgol, dylai fod yn fodlon bod trefniadau addas wedi cael eu gwneud iddo barhau â'i addysg tra na fydd yn yr ysgol. Fydd gwneud gwaith yn y cartref heb oruchwyliaeth ddim yn ddigonol, a dylai'r pwyllgor disgyblu sicrhau bod cymorth ychwanegol (e.e. addysg yn y cartref) neu wasanaethau arbenigol (e.e. cwnsela) yn cael eu trefnu.

**Y weithdrefn ar ôl y cyfarfod**
Dylai'r pwyllgor disgyblu roi gwybod i'r rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl, y Pennaeth a'r Awdurdod Lleol am ei benderfyniad yn ysgrifenedig o fewn un diwrnod ysgol ar ôl y cyfarfod, gan nodi ei resymau. Does dim rhaid i'r pwyllgor nodi amodau mewn cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddisgybl ddychwelyd; serch hynny, dylai'r ysgol ddilyn arfer da wrth ailintegreiddio'r disgybl.

Os yw'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion yn cydsynio â'r penderfyniad i wahardd disgybl yn barhaol, dylai'r llythyr at y rhieni a/neu'r disgybl hefyd gynnwys y canlynol:

- y rheswm dros y penderfyniad
- gwybodaeth am eu hawl i apelio i banel apelio annibynnol
- manylion cyswllt Clerc y Panel Apelio Annibynnol yn y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, a ddylai gael gwybod am unrhyw apêl
- y dyddiad y byddai raid cyflwyno unrhyw hysbysiad o apêl e.e. 15 diwrnod ysgol ar ôl cael hysbysiad ysgrifenedig y pwyllgor disgyblu (mae hysbysiad sy'n cael ei anfon â stamp dosbarth cyntaf yn cael ei ystyried fel petai wedi cael ei roi ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl cael ei anfon)
- nodyn sy'n rhoi gwybod bod rhaid esbonio'r rhesymau dros apelio
- nodyn sy'n rhoi gwybod y dylai hysbysiad o apêl gynnwys unrhyw honiadau o wahaniaethu
  (edrychwch ar Atodiad A: Llythyr enghreifftiol 5)

Dylai ysgolion sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal yn cael gwybod am wasanaethau eiriolaeth lle bo angen.

Dylai nodyn sy'n amlinellu barn y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion ar y gwaharddiad gael ei roi ar gofnod ysgol y disgybl, ynghyd â chopi o lythyr gwahardd y Pennaeth a phapurau perthnasol eraill. Serch hynny, os yw'r disgybl yn dychwelyd, does dim rhaid i'r ysgol gydymffurfio ag unrhyw ofyniad gan rieni/gwarcheidwaid i ddileu manylion am y gwaharddiad o gofnod y disgybl. Mewn gwirionedd, lle mae'r gwaharddiad wedi digwydd fel ffaith, hynny yw, os yw'r gwaharddiad, neu ran ohono, wedi cael ei wneud, byddai'n anghyfreithlon dileu manylion amdano o gofnod addysg y disgybl (edrychwch ar Adran 5).

## 3.4 Gwaharddiadau o Unedau Cyfeirio Disgyblion

Rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu'r holl waharddiadau cyfnod penodol a pharhaol o Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ystyried unrhyw sylwadau sydd wedi'u gwneud gan rieni/warcheidwaid a/neu ddisgyblion.

Mewn lleoliadau o'r fath mae'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion yn cynnwys aelodau o'r pwyllgor rheoli, a swyddog o'r adran Cymorth i Lywodraethwyr yw'r Clerc. Does dim rheidrwydd ar y panel i gynnal cyfarfod oni bai fod penderfyniad yn cael ei wneud i wahardd disgybl sy'n arwain at gyfanswm cronnus sy'n fwy na 15 diwrnod ysgol mewn un tymor. Yn yr amgylchiadau yma, dylai'r pwyllgor ymgynnull cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl y penderfyniad i wahardd i ystyried a ddylid adfer y disgybl os yw hyn yn cael ei ystyried yn briodol ac yn ymarferol. Rhaid i'r pwyllgor ganiatáu i'r rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl, a'r athro sy'n gyfrifol, roi tystiolaeth ar lafar ynglŷn â'r gwaharddiad.

Yn achos gwaharddiadau parhaol gan Unedau Cyfeirio Disgyblion, dylai'r pwyllgor benderfynu yn brydlon a ddylid cydsynio â'r penderfyniad ai peidio. Dim ond ar y cam panel apelio y bydd modd i'r rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl roi sylwadau ar lafar.

## Adran 4: Gweithdrefnau ac Ailintegreiddio ar ôl Gwaharddiad

### 4.1 Darpariaeth addas ac amser llawn

Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai pob disgybl gael addysg amser llawn, mae'n cydnabod y gall fod angen ar rai disgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn raddol. Gall diffyg cysylltiad agos â'r ysgol dros gyfnod hir, neu amgylchiadau cyfredol eithriadol y disgybl, ei gwneud yn annhebygol y bydd ailymuno'n gyflym iawn yn llwyddiannus. Yn achos y disgyblion yma, rhaid i gynlluniau ar gyfer eu haddysg yn y dyfodol gynnwys manylion penodol am sut y bydd yn ailymuno ag addysg amser llawn.

Fel rheol, dylai disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd am gyfnodau hirach (a'r rheiny sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol) gael addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n cynnwys cwricwlwm eang a chytbwys, a hynny o fewn 15 diwrnod ar ôl y cyfarfod Pwyllgor Disgyblu Disgyblion. Gan amlaf, bydd yr ysgol wedi ceisio cymorth gan Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn ystod y cyfnod yma (edrychwch ar Adran 1). Bydd yr Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth yn rhoi gwybod i'r rhieni am eu hopsiynau (hyd yn oed os yw proses apelio yn mynd yn ei blaen). Os yw'n briodol, bydd gofyn iddyn nhw lenwi adran berthnasol y ffurflen Bwriad i Drosglwyddo (edrychwch ar adran 2.2) fel bydd modd trefnu lle mewn ysgol brif ffrwd arall cyn gynted â phosibl.

### 4.2 Cyfarfodydd ailintegreiddio ar ôl gwaharddiadau cyfnod penodol

Yn unol â Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010 rhaid i benaethiaid ysgolion gynnig cyfweliad ailintegreiddio i rieni/gwarcheidwaid y disgyblion sydd wedi cael gwaharddiad cyfnod penodol o'r ysgol. Dylen nhw roi gwybod ymlaen llaw am y dyddiad, amser, hyd a phwrpas y cyfweliad. Mae hyn yn ofynnol yn dilyn:

- pob gwaharddiad cyfnod penodol yn achosion disgyblion ysgol gynradd
- gwaharddiadau cyfnod penodol yn achos disgyblion ysgol uwchradd sy'n para chwe diwrnod neu fwy.

Serch hynny, yn unol â'r arfer gorau, dylai ysgolion gynnal cyfarfodydd ar ôl pob gwaharddiad. Noder nad oes angen gwneud cais am gyfweliad os bydd diwrnod cyntaf y gwaharddiad yn ystod 10 diwrnod olaf y tymor ysgol, neu os yw'r Pennaeth yn disgwyl i ddisgybl adael ar sail rheswm nad yw'n gysylltiedig â'i ymddygiad cyn diwedd y cyfnod 15 diwrnod ar gyfer cyfweliad.

Mae'r cyfarfodydd ailintegreiddio yn gyfle i wneud y canlynol:

- pwysleisio pwysigrwydd cydweithrediad rhieni/gwarcheidwaid â'r ysgol, gan rannu cyfrifoldeb am ymddygiad eu plentyn
- trafod dulliau o fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad
- ystyried materion ehangach ac unrhyw amgylchiadau a allai fod yn effeithio ar ymddygiad y disgybl
- trafod unrhyw bryderon a allai fod gan y rhiant/gwarcheidwad neu'r disgybl

- cytuno ar y ffordd orau o gynnal addysg y disgybl o hyn ymlaen, y ffordd orau o'i ailintegreiddio a'r mesurau posibl at ddiben atal ymddygiad drwg yn y dyfodol

Rhaid i'r Pennaeth geisio trefnu'r cyfweliad ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r rhiant/gwarcheidwad. Dylai'r Pennaeth gynnig diwrnod ysgol ar gyfer y cyfweliad yn y lle cyntaf, ond mae'n dderbyniol ei gynnal ar unrhyw ddiwrnod os bydd y Pennaeth a'r rhiant/gwarcheidwad yn cytuno ar hynny.

Bydd raid i ysgolion gynnig cyfweliadau ailintegreiddio a bydd disgwyl i rieni/gwarcheidwaid fynd iddyn nhw, er na fydd raid. Os na fydd y rhiant/gwarcheidwad yn dod i'r cyfweliad, ddylai hyn ddim effeithio ar ddychweliad y disgybl i'r ysgol. Ddylai gwaharddiad ddim cael ei ymestyn oherwydd nad yw rhiant wedi dod i gyfweliad ailintegreiddio, nac ychwaith os nad oes modd ei gynnal cyn diwedd y gwaharddiad.

Noder: Mae'r graddfeydd amser sy'n cael eu nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru wedi cael eu pennu at ddiben sicrhau bod gan rieni'r cyfle i ddod, yn enwedig mewn achosion lle y gallen nhw fod yn destun gorchmynion rhianta, hynny yw, o fewn 15 diwrnod cyn diwrnod olaf y gwaharddiad a chyda o leiaf 6 diwrnod o rybudd.

Serch hynny, o ganlyniad i hyn gallai'r disgybl fod wedi dechrau yn ôl yn yr ysgol ers dros wythnos a hyd at dair wythnos o bosibl, cyn i gyfarfod gael ei gynnal at ddiben cytuno ar gymorth neu ddarpariaeth rhag gwaharddiadau pellach. Mae'n bosibl y bydd penaethiaid, felly, yn dewis addasu'r llythyron enghreifftiol o ganllawiau Llywodraeth Cymru (ar gael yn Atodiad A) gan ddileu cyfeiriadau at ddyddiadau'r cyfarfod ailintegreiddio, a chyflwyno cais anffurfiol am gyfarfod cyn gynted â phosibl.

Mae'n bosibl y bydd y rhan sy'n cyfeirio at orchmynion rhianta yn cael ei chamddehongli neu'n cael ei hystyried mewn ffordd negyddol gan rieni cefnogol. Am y rheswm hwnnw, mae'n bosibl bydd ysgolion am dynnu'r paragraff yma yn y lle cyntaf. Efallai bydd ysgolion o'r farn bydd ond angen delio â'r mater yn ffurfiol os nad yw'r rhieni yn dangos diddordeb mewn bod yn rhan o'r broses o ailintegreiddio. Os felly, bydd raid cynnig dyddiadau penodol ar gyfer cynnal apwyntiad a rhaid nodi'r canlyniadau posibl o beidio â dod. Rhaid i hyn oll fod yn ysgrifenedig.

## 4.3 Ar ôl gwaharddiad parhaol

**Tynnu disgyblion o'r gofrestr**

Rhaid i ddisgybl aros ar y gofrestr hyd nes bod unrhyw broses o apelio wedi dod i ben. Os peidio ag apelio yw'r penderfyniad, caiff yr ysgol dynnu'r disgybl o'r gofrestr ar ôl i'r dyddiad hwyraf am apêl fynd heibio, neu ar ôl i'r Panel Apelio Annibynnol gadarnhau penderfyniad y Pennaeth.

**Bydd y cyllid yn dilyn y disgybl**

Mae'r ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am addysg y disgybl hyd nes i'w enw gael ei dynnu o'r gofrestr. Bydd yr arian yn cael ei dynnu o gyllideb yr ysgol

sy'n gwahardd o'r dyddiad yma. Bydd cyllid am weddill y flwyddyn ysgol yn cael ei drosglwyddo i unrhyw ysgol sy'n derbyn neu gall yr Awdurdod Lleol ei ddefnyddio i wneud iawn am gost unrhyw ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol barhaus. Mae manylion llawn am gyllid wedi'u nodi yn Adran 7 o ganllawiau Llywodraeth Cymru.

**Trosglwyddo rhwng ysgolion**

Fel rheol, ddylai awdurdodau derbyn disgyblion ddim gwrthod disgyblion ar sail eu cofnod disgyblu, gan gynnwys gwaharddiadau yn y gorffennol. Mae'n annerbyniol i ysgol wrthod derbyn disgybl oherwydd y gred y gallai fod yn aflonyddgar neu y gallai ei ymddygiad fod yn heriol, heblaw'r achosion canlynol:

- mae ganddi gyfran uchel o ddisgyblion sy'n heriol o ran eu hymddygiad eisoes
- mae'n ceisio gwella safonau sydd ar hyn o bryd yn isel ar ôl iddi gael ei nodi'n ysgol sydd angen mesurau arbennig, neu'n ysgol sydd â gwendidau difrifol mewn arolygiad

Mae gan Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddyletswydd statudol i gydymffurfio â dewis y rhiant o ran ysgol newydd y disgybl. Serch hynny, does dim rhaid cydymffurfio â hyn am ddwy flynedd ar ôl i ddisgybl gael ei wahardd yn barhaol yr eildro.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu Panel Protocol Mynediad Teg i gydlynu a monitro lleoliad disgyblion sy'n agored i niwed gan gynnwys y rhai sydd wedi'u gwahardd yn barhaol. Yn y modd yma, mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio cydnabod anghenion ysgolion unigol, ond ar yr un pryd, hawl y disgybl i fynychu ysgol brif ffrwd o'i ddewis.

O dan reolaeth y panel, mae'r Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth yn gweithio ar y cyd â'r Cydlynydd Trosglwyddo yn Ystod y Flwyddyn ac asiantaethau megis 'Addysg Heblaw yn yr Ysgol' i sicrhau bod disgyblion sy'n 'anodd eu lleoli' yn cael darpariaeth addas. Maen nhw hefyd yn sicrhau bod disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol yn cael addysg amser llawn cyn gynted â phosibl.

## Adran 5: Paneli Apelio Annibynnol

Mae modd herio gwaharddiadau parhaol sydd wedi'u cadarnhau gan y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion. Mae modd hefyd i achosion gael eu clywed gan Apêl Annibynnol sy'n cael ei sefydlu gan yr Awdurdod Lleol. Mae'n hollbwysig, felly, bod penaethiaid ac aelodau'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion yn darllen adran 4 o ganllawiau Llywodraeth Cymru am esboniad manwl o'r gweithdrefnau pwysig yma.

### 5.1 Swyddogaeth yr Awdurdod Lleol

**Cefnogi'r hawl i apelio**

Cyn cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion, bydd yr Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth yn sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion yn gwbl effro i'w hopsiynau, gan gynnwys yr hawl i apelio, a'r broses a fyddai ynghlwm wrth hyn. Mae gan bob person yr hawl i gael gwrandawiad gan y Panel Apelio Annibynnol hyd yn oed os na chyflwynon nhw achos yng nghyfarfod y pwyllgor disgyblu neu na fuon nhw'n bresennol ynddo.

Oherwydd hynny, dylai'r Awdurdod Lleol ysgrifennu at yr unigolion perthnasol cyn pen tri diwrnod gwaith o gyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion i gadarnhau'r hawl honno a'u hysbysu o'r protocolau y dylid eu dilyn, gan gynnwys:

- y dyddiad hwyraf y gallai cais am apêl gael ei gyflwyno, sef, 15 diwrnod ar ôl cael hysbysiad am benderfyniad y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion
- enw a manylion cyswllt Clerc y panel apelio
- bod rhaid i'r hysbysiad apelio fod mewn ysgrifen
- bod rhaid iddo gynnwys y sail dros apelio
- y cyfle i gyflwyno tystiolaeth newydd
- yr opsiwn o gynrychiolaeth sy'n gallu rhoi cymorth wrth benderfynu ac yn ystod y broses o apelio a gwybodaeth am argaeledd yr gwasanaeth yma
- y dylid cynnwys unrhyw honiad o wahaniaethu
- caiff ceisiadau am apêl ar ôl y dyddiad hwyraf eu gwrthod gan yr Awdurdod Lleol

Caiff hysbysiad ysgrifenedig gan berson perthnasol i'r Awdurdod Lleol sy'n nodi nad yw am apelio ei drin yn derfynol. Yn achos disgyblion o oedran addysg orfodol sy'n 11 oed ac hŷn, bydd hysbysiad gan y rhieni/gwarcheidwaid yn derfynol ni waeth p'un a yw'r disgybl wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r fath. Y disgybl yn unig sydd â'r hawl i apelio os yw uwchlaw'r oedran addysg orfodol.

**Pennu dyddiad**

Rhaid i banel apelio gynnal cyfarfod i ystyried apêl o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl i'r cais am apêl gael ei gyflwyno. Serch hynny, gall y panel ddod i'r cyfarfod i ben heb benderfynu pan fo angen. Bydd hyn yn bosibl os yw o'r farn y byddai'n amhriodol penderfynu canlyniad yr apêl yng nghyd-destun amgylchiadau penodol yr achos. Gallai hyn gynnwys amgylchiadau lle mae

rhaid aros am ragor o wybodaeth. Gall y panel ohirio yn y modd yma mwy nag unwaith os bydd angen.

Yn ogystal â hynny, mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl i'r Awdurdod Lleol benderfynu cynnal y gwrandawiad yn ddiweddarach na'r pymthegfed diwrnod ysgol. Er enghraifft, gallai fod angen rhagor o amser i baratoi am y gwrandawiad apêl ar y rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl. Serch hynny, yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu a oes modd rhoi rhagor o amser, a dylai bwyso a mesur pob cais yn ôl ei deilyngdod. Os caiff dyddiad diweddarach ei bennu, caiff ei ystyried bod y panel wedi gohirio'r gwrandawiad.

**Cyfansoddiad y Panel Apelio Annibynnol**

Rhaid i'r Awdurdod Lleol sefydlu'r Panel Apelio Annibynnol a phenodi Clerc. Bydd tri neu bum aelod yn ffurfio pob panel y bydd y canlynol yn rhan ohono:

- person lleyg (Cadeirydd)
- ymarferydd addysg*
- llywodraethwr ysgol*
  (*dau ar gyfer paneli 5 aelod)

Pan fo modd, dylai o leiaf un aelod o'r panel fod yn gweithio'r tu allan i Awdurdod Lleol ysgol y disgybl sydd wedi'i wahardd. Drwy wneud hyn bydd ystod ehangach o safbwyntiau o faes addysg.

## 5.2 Swyddogaeth y Clerc

Mae'r Clerc yn cynnig ffynhonnell annibynnol o gyngor ar weithdrefnau i bob parti. Ddylai'r Clerc ddim bod wedi cael ei benodi yn rhan o wrandawiad y pwyllgor disgyblu.

Ar ôl cael hyfforddiant, dylai clercod gael y cyfle i fagu profiad mewn cynnal apeliadau. Os nad yw'r Clerc wedi cael hyfforddiant cyfreithiol ac os nad oes aelod o'r panel sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried p'un a fyddai'r panel yn elwa ar ffynhonnell annibynnol o gyngor cyfreithiol. Mae hyn yn fwy perthnasol os yw'r parti sy'n apelio a/neu'r ysgol wedi trefnu cynrychiolaeth gyfreithiol.

## 5.3 Y rheiny sy'n bresennol

Mae gan y partïon canlynol yr hawl i ddod i wrandawiad a chyflwyno eu hachos, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, ac yng nghwmni cynrychiolydd os byddan nhw am wneud hynny:

- y rhiant/gwarcheidwad a'r disgybl
- y Pennaeth
- llywodraethwr penodedig
- swyddog Awdurdod Lleol penodedig

Mae gan bob parti uchod, gan gynnwys y Corff Llywodraethu, yr hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol neu i fath arall o gynrychiolaeth.

Pan fo Pennaeth sydd wedi gwahardd disgybl yn gadael yr ysgol, y panel apelio sy'n penderfynu p'un a gaiff ei wahodd i gyflwyno ei achos.

Dylai'r Clerc roi pob darn o dystiolaeth ysgrifenedig i bob parti bum diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Yn rhan o hyn bydd datganiad y pwyllgor disgyblu o'i benderfyniad a hysbysiad o apêl y rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl sy'n cynnwys y sail dros apelio ac unrhyw honiad o wahaniaethu.

Does dim modd i apêl barhau os bydd nifer aelodau'r panel yn cwympo'n is na thri ar unrhyw adeg. Yn yr achos yma, bydd raid i'r panel ohirio hyd nes ei fod yn cynnwys tri aelod unwaith eto. Unwaith i apêl ddechrau, all aelodau o'r panel ddim cael eu newid am aelod newydd am unrhyw reswm.

## 5.4 Gweithdrefn ar gyfer y Pwyllgor Apelio Annibynnol

Bydd y gwrandawiad yn dilyn fformat cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion. Dylai'r Clerc gofnodi'r drafodaeth, y bobl sy'n bresennol, canlyniad pleidleisiau a'r penderfyniad yn unol â fformat cymeradwy yr Awdurdod Lleol.

**Tystiolaeth**

Mae hawl gan bob parti i gyflwyno tystiolaeth newydd sy'n berthnasol i'r achos. Serch hynny, i roi cyfle i eraill ymateb i'r dystiolaeth honno, dylai fod ar gael i'r panel a'r sawl sy'n bresennol yn y cyfarfod o leiaf 5 diwrnod cyn y cyfarfod.

Does dim hawl gan yr ysgol i gyflwyno rhesymau newydd dros wahardd.

**Dod i benderfyniad**

Wrth ystyried achos, dylai'r panel benderfynu, yn ôl pwysau tebygolrwydd, p'un a wnaeth y disgybl yr hyn sydd wedi cael ei honni. Dylai'r panel ystyried y sail i benderfyniad y Pennaeth, a'r gweithdrefnau a gafodd eu dilyn, gan geisio ateb y cwestiynau canlynol:

- a wnaeth y Pennaeth a'r pwyllgor disgyblu gydymffurfio â'r gyfraith?
- a roddon nhw ddigon o ystyriaeth i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth benderfynu gwahardd y disgybl a'i atal rhag ailymuno?
- a oedd Rhaglen Cymorth Bugeiliol addas ar waith?
- a oedd datganiad AAA wedi cael ei gyflwyno, a oedd yn nodi'r ddarpariaeth addysg?
- a oedd y penderfyniad yn cydymffurfio â pholisïau cyhoeddedig yr ysgol ar ymddygiad, cyfleoedd cyfartal, atal bwlio, AAA, cydraddoldeb hil, neu unrhyw bolisïau perthnasol eraill?
- a oedd y gwaharddiad yn deg yng nghyd-destun triniaeth disgyblion eraill a oedd yn rhan o'r un digwyddiad?

(Yn achos digwyddiadau sydd o hyd yn rhan o ymchwiliad yr heddlu, edrychwch ar Adran 6)

**Y penderfyniad**
Mae'r panel yn annibynnol. Mae ei benderfyniad yn derfynol o safbwynt y rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl, y Corff Llywodraethu, y Pennaeth a'r Awdurdod Lleol. All y panel ddim newid ei benderfyniad ar ôl ei wneud. Dylai penderfyniad y panel gael ei wneud yn sgil cytundeb rhwng mwyafrif yr aelodau. Os bydd nifer aelodau'r panel yn cwympo i bedwar a doedd dim mwyafrif, pleidlais y Cadeirydd a fydd yn pennu'r canlyniad.

Caiff panel apelio wneud y canlynol:

- cadarnhau penderfyniad i wahardd
- diddymu'r penderfyniad i wahardd a rhoi cyfarwyddyd derbyn y disgybl yn ôl
- gwrthdroi'r penderfyniad i wahardd ond rhaid i hynny fod oherwydd amgylchiadau eithriadol neu resymau ymarferoldeb - fydd dim hawl adfer yn uniongyrchol.

Wrth wneud y penderfyniad hwnnw rhaid i'r panel gydbwyso buddiannau'r disgybl sydd wedi'i wahardd yn erbyn buddiannau holl aelodau eraill cymuned yr ysgol.

Os bydd y panel yn rhoi cyfarwyddyd i dderbyn y disgybl yn ôl, rhaid i ddyddiad hynny fod yn rhesymol yn yr amgylchiadau. Ddylai'r dyddiad derbyn y disgybl yn ôl ddim bod yn fwy na phum diwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad, heblaw bod rheswm sy'n argyhoeddi'n gryf fel arall. Does gan y panel mo'r hawl i roi amodau ar y broses o dderbyn y disgybl yn ôl.

Yn achosion rhieni/gwarcheidwaid sydd wedi honni gwahaniaethu yn sgil gwaharddiad parhaol, rhaid i'r panel apelio ystyried p'un a oes gwahaniaethu wedi digwydd yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Cofnodi cyfarfod panel apelio**
Dylai'r Clerc anelu at baratoi fersiwn terfynol o'r cofnodion o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod, a rhaid i'r rhain gael eu cymeradwyo gan gymaint o aelodau'r pwyllgor ag y bo modd. Nid dogfennau cyhoeddus yw'r cofnodion, ond dylai'r Awdurdod Lleol eu cadw am gyfnod o bum mlynedd o leiaf, oherwydd ei bod hi'n bosibl y bydd raid eu hystyried mewn llys neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 5.5 Ar ôl y gwrandawiad

Rhaid i'r panel roi gwybod i bob parti am ei benderfyniad erbyn diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y gwrandawiad. Dylai'r llythyr sy'n nodi'r penderfyniad roi rhesymau'r panel dros ei benderfyniad yn ddigon manwl fel bod pob parti yn eu deall.

Os bydd y panel apelio yn cadarnhau penderfyniad i wahardd, dylai'r Clerc roi gwybod i'r Awdurdod Lleol yn syth a bydd y prosesau sydd wedi'u nodi yn Adran 4.3 yn cael eu dilyn. Os yw'r disgybl yn byw y tu allan i'r Awdurdod

Lleol sydd wedi trefnu'r apêl, dylai'r Clerc sicrhau bod Awdurdod Lleol cartref y disgybl hefyd yn cael gwybod am y penderfyniad yn syth.

Pan fo'r panel yn rhoi cyfarwyddyd i dderbyn y disgybl yn ôl, dylai roi gwybod i'r Pennaeth am y penderfyniad yn syth. Dylai nodi ar ba ddyddiad y mae rhaid i'r disgybl ddychwelyd. Pan fo panel apelio yn rhoi'r cyfarwyddyd i dderbyn disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol yn ôl yn rheolaidd, dylai hysbysu'r Awdurdod Lleol am hyn. Dylai'r Awdurdod Lleol drafod y problemau gwaelodol â'r Pennaeth ynglŷn â'r ffordd y mae gwaharddiadau yn cael eu defnyddio yn yr ysgol.

**5.6 Adolygiad barnwrol**

Os yw'r rhiant/gwarcheidwad neu'r disgybl, y Corff Llywodraethu neu'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y penderfyniad yn groes i'r gyfraith, cân nhw wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol. Rhaid i hyn gael ei wneud ymhen cyfnod byr - fel rheol, tri mis ar y mwyaf ar ôl dyddiad y penderfyniad. Gall y llys ganfod penderfyniad y panel yn anghyfreithlon neu'n afresymol (yn ystyr gyfyng y gyfraith o'r gair 'afresymol', sef afresymegol neu groes i'r gyfraith). Os gwnaiff, gall ddileu'r penderfyniad a rhoi cyfarwyddyd i'r Awdurdod Lleol gynnal apêl newydd gerbron panel cwbl wahanol.

## Adran 6: Troseddau Honedig, Swyddogaeth yr Heddlu ac Achosion Troseddol ar yr Un Pryd

Gallai digwyddiad sy'n gysylltiedig â'r ysgol hefyd fod yn rhan o ymchwiliad yr heddlu, a gallai fod achos cyfreithiol o ganlyniad iddo. Mewn achosion o'r fath, gall y dystiolaeth sydd ar gael i benaethiaid, athrawon sy'n gyfrifol am Unedau Cyfeirio Disgyblion, pwyllgorau disgyblu a phaneli apelio annibynnol fod yn gyfyngedig iawn. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd modd iddyn nhw glywed tystion perthnasol neu ystyried deunydd perthnasol. Mae'n bosibl na fydd yn glir p'un a fydd achos troseddol; os yw achos wedi cael ei ddwyn gerbron llys, mae'n bosibl y bydd y canlyniad i hwnnw yn y pen draw yn ansicr.

### 6.1 Penderfyniad y Pennaeth i wahardd ac ystyriaeth o'r amgylchiadau gan y pwyllgor disgyblu

Ddylai Pennaeth ddim gohirio gwaharddiad ar sail y posibilrwydd y gallai achos troseddol gael ei ddwyn gerbron llys ynglŷn â'r un digwyddiad. Yn yr amgylchiadau yma, dylai dyfarniad gael ei wneud ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

Mae'n bwysig cofio bod yr heddlu a'r llysoedd yn defnyddio'r safon profi *'y tu hwnt i bob amheuaeth resymol'*. Mae hyn yn wahanol i safon profi'r Pennaeth, y pwyllgor disgyblu a'r Panel Apelio Annibynnol wrth benderfynu ynghylch gwaharddiad, sef *'yn ôl pwysau tebygolrwydd'*.

Dyma rai o'r ystyriaethau sy'n berthnasol:

- Mae'r disgybl wedi cael ei gyhuddo o drosedd ddifrifol gan ddisgybl arall neu aelod o staff yn yr ysgol, ac mae'r heddlu yn cynnal ymchwiliad. Mae'n bosibl y bydd achos troseddol o ganlyniad i hyn.
- Tra bod achos troseddol o'r fath yn mynd yn ei flaen, gall presenoldeb y disgybl yn yr ysgol gael effaith niweidiol ar yr unigolyn sydd wedi cyflwyno'r gŵyn a thystion posibl eraill. Gall gael effaith anffafriol ar gynnal ymddygiad a gweithdrefnau disgyblu da yn gyffredinol.

Mewn achosion o wahardd disgybl yn y fath amgylchiadau, does gan y pwyllgor disgyblu mo'r hawl i ohirio ei gyfarfod i ystyried gwaharddiad y disgybl. Wrth benderfynu p'un a ddylai gyfarwyddo'r Pennaeth i dderbyn y disgybl yn ôl, gall fod gan y pwyllgor disgyblu'r un cyfyngiadau o ran argaeledd tystion a gwybodaeth berthnasol. Bydd raid iddo ystyried yr achos ar sail yr un ffeithiau.

### 6.2 Trefniadau ar gyfer gwrandawiad apêl pan fo achos troseddol yn digwydd ar yr un pryd

Pan fo pwyllgor disgyblu yn penderfynu peidio â chyfarwyddo Pennaeth i dderbyn disgybl a gafodd ei wahardd yn barhaol yn ôl, dylai'r rhiant/gwarcheidwad a/neu'r disgybl gael ei hysbysu ynghylch y penderfyniad ac am eu hawl i apelio.

Yn y cyfarfod cyntaf, rhaid i'r panel apelio ystyried p'un a all benderfynu ar ganlyniad yr apêl. Os na all, rhaid ei ohirio hyd nes bod y canlyniad i

ymchwiliad yr heddlu a/neu unrhyw achos troseddol yn cael ei bennu. Rhaid gwneud hyn gan ystyried yr wybodaeth y mae pob parti yn ei chyflwyno a thrwy ymgynghori â'r Clerc. Dyw'r ffaith bod achos cyfreithiol yn cael ei gynnal ddim yn sail i benderfynu p'un a ddylai'r gwrandawiad gael ei ohirio.

Dyma rai o'r ffactorau perthnasol y dylai'r panel eu hystyried:

- p'un a fyddai gwybod o beth y mae'r heddlu yn cyhuddo'r disgybl, os unrhyw beth (noder y gallai helpu achos y disgybl os nad yw'n cael ei gyhuddo gan yr heddlu, a gallai atal y disgybl rhag cyflwyno ei achos os yw'r heddlu yn ei ddwyn gerbron llys)
- p'un a oes tystion a dogfennau perthnasol ar gael
- y tebygolrwydd o oedi pe bai'r gwrandawiad yn cael ei ohirio, ac effaith hynny ar unrhyw un sydd wedi gwneud cwyn, ar y disgybl gwaharddedig neu ar yr ysgol ei hun
- p'un a allai penderfyniad anghyfiawn gael ei wneud o ganlyniad i ohirio, neu i beidio â gohirio, yn yr un modd.

Os bydd y panel yn penderfynu gohirio, rhaid i'r Awdurdod Lleol gymryd camau tuag at sicrhau parhad addysg y disgybl tan y gwrandawiad.

Bydd y Clerc yn gyfrifol am gadw golwg ar ddatblygiadau ymchwiliad yr heddlu, neu achos troseddol. Bydd yn gyfrifol am gynnal cyfarfod arall cynted ag y bo modd i'r gwrandawiad symud ymlaen i'r cam penderfynu.

Os bydd angen, caiff y panel ohirio mwy nag unwaith. Dylai'r un aelodau panel fod yn bresennol ym mhob cyfarfod. Unwaith y bydd y panel yn ailymgynnull ar ôl unrhyw achos troseddol dylai roi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth am yr achos troseddol sy’n berthnasol i’r materion y mae rhaid iddo eu hystyried. Mewn achosion lle y mae'r disgybl wedi'i gael yn ddieuog o gyhuddiad sy'n gysylltiedig â'r ymddygiad a arweiniodd at y gwaharddiad, dyw hyn ddim o reidrwydd yn sail i ddiddymu'r gwaharddiad. Mae'n bosibl mai pwyntiau technegol cyfreithiol a arweiniodd at y dyfarniad hwnnw, er enghraifft.

## Atodiad A: Llythyron enghreifftiol

*Dyma'r llythyron enghreifftiol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu yn ei chanllawiau. Dylai llythyron gael eu hanfon at y ddau riant/warcheidwad, Awdurdodau Lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant* ***a*** *disgyblion ysgol uwchradd. Dylid rhoi gwybod i weithwyr cymdeithasol hefyd.* ***Edrychwch ar Adran 4.2, sy'n cyfeirio at orchmynion rhianta mewn achosion lle nad yw'r rhieni'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd ailintegreiddio.***

**Atodiad B: Ffurflen Adrodd am Waharddiad**

I'w gyflwyno i'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â/ag:

- gwaharddiad a fydd yn fwy na phum diwrnod ysgol mewn un tymor
- unrhyw achosion o wahardd yr un disgybl yn yr un tymor ar ôl hynny
- gwaharddiadau a fyddai'n peri i'r disgybl golli arholiad cyhoeddus
- gwaharddiadau parhaol

| **Adroddiad am Waharddiad ar gyfer y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a'r Awdurdod Lleol** |
|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw cyntaf y disgybl: | | Cyfenw'r Disgybl: | |
| Ysgol: | | Blwyddyn: | |
| Dyddiad Dechrau'r Gwaharddiad: | | Cyfnod penodol am gyfanswm o fwy na 5 niwrnod: | Sawl diwrnod: Cyfanswm ar gyfer y tymor: |
| Parhaol: | | Colli arholiad cyhoeddus? | Ydy / Nac Ydy (Dilëwch fel y bo'n briodol) |
| Rheswm: | | Cod:* | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran / Dyddiad geni: | | Rhyw: | |
| Enw'r rhiant/gwarcheidwad NEU enwau'r rhieni/gwarcheidwaid: | | Perthynas â'r plentyn: | |
| Gweithredu gan yr Ysgol / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar<br>Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy<br>Datganiad | | Prif Ffrwd / Dosbarth Cynnal Dysgu: | |
| Tras Ethnig: | | Plentyn sy'n Derbyn Gofal? | Ydy / Nac Ydy (Dilëwch fel y bo'n briodol) |
| Prydau ysgol am ddim? | Ydy / Nac Ydy (Dilëwch fel y bo'n briodol) | Iaith gyntaf | Cymraeg/Saesneg/ Arall: |

*Defnyddiwch y codau gwahardd canlynol wrth roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am waharddiad:

| | |
|---|---|
| TS – *ymosod corfforol / trais (staff)* | TD – *ymosod corfforol / trais (disgybl)* |
| YA – *ymddygiad aflonyddgar parhaus* | BW – *bwlio* |
| CH – *cam-drin hiliol* | CRh – *camymddwyn rhywiol* |
| CD – *cam-drin geiriol / ymddygiad bygythiol yn erbyn disgybl* | CO – *cam-drin geiriol / ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn* |
| LL – *lladrata* | DE – *difrod i eiddo* |
| CA- *mewn perthynas â chyffuriau ac alcohol* | AR – *arall* |

(I sicrhau casglu data cywir, osgowch *'arall'* lle bynnag y bo'n bosibl)

## Atodiad C: Rhestrau gwirio ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion

Rhaid i ysgolion drefnu cyfarfodydd Pwyllgor Disgyblu Disgyblion yn dilyn gwaharddiadau parhaol, gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy nag 15 diwrnod mewn tymor neu os bydd y gwaharddiad yn golygu bod y disgybl yn absennol yn ystod arholiad cyhoeddus.
Gall rhieni ofyn am wrandawiad Pwyllgor Disgyblu Disgyblion os yw'r disgybl wedi'i wahardd am gyfanswm o fwy na phum diwrnod mewn tymor.

| **Rhestr wirio'r weithdrefn gwahardd** | |
|---|---|
| **I'w weithredu gan** | **Terfyn Amser** |
| Llythyr at y rhiant/disgybl | Dyddiad gwahardd<br>+1 diwrnod ysgol: |
| Adroddiadau Gwahardd ar gyfer y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a'r Awdurdod Lleol | Dyddiad gwahardd<br>+1 diwrnod ysgol: |
| Trefniadau ar gyfer gosod/marcio gwaith | Dyddiad gwahardd<br>+1 diwrnod ysgol: |
| Trefniadau ar gyfer y cyfweliad ailintegreiddio[1] | Ar ôl y gwaharddiad<br>+6 i 15 diwrnod ysgol: |
| Cais am addysgu yn y cartref (Cais am Leoliad Arbenigol)[2] | Dyddiad gwahardd<br>+5 diwrnod ysgol: |
| Llenwi ffurflen Bwriad i Drosglwyddo[3] | Dyddiad gwahardd<br>+5 diwrnod ysgol: |
| Trafodaeth gyda'r Awdurdod Lleol i ystyried dewisiadau eraill | O leiaf 5 diwrnod cyn<br>cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion: |
| Trefniadau ar gyfer<br>cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion | O leiaf 5 diwrnod cyn<br>cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion: |
| Hysbysiad o gyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion i'r bobl a fydd yn bresennol | O leiaf 5 diwrnod cyn<br>cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion: |
| Datganiadau / adroddiadau / rhestr o'r bobl fydd yn bresennol at y bobl fydd yn bresennol | O leiaf 5 diwrnod cyn<br>cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion: |
| cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion | Dyddiad gwahardd<br>+6-15 diwrnod ysgol[4]: |
| Llythyr i bob parti<br>ynglŷn â chanlyniad y cyfarfod | Dyddiad cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion<br>+1 diwrnod ysgol: |

| | |
|---|---|
| Penderfynu apelio yn erbyn gwaharddiad parhaol | Hysbysiad am y canlyniad<br>+15 diwrnod ysgol: |

[1]Rhaid cynnig cyfweliad ar gyfer pob disgybl cynradd, a phob gwaharddiad o 6 diwrnod neu ragor ar gyfer disgyblion uwchradd.

[2]Os yw'r gwaharddiad yn un parhaol neu'n waharddiad cyfnod penodol o fwy na 15 diwrnod.

[3] Gwaharddiad parhaol

[4]Os bydd arholiad cyhoeddus yn cael ei golli, dylai'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion gynnal cyfarfod cyn yr arholiad
Os caiff cyfarfod Pwyllgor Disgyblu Disgyblion ei drefnu ar gais y rhiant - +6 diwrnod hyd at 50 diwrnod.

| **Rhestr o'r sawl sy'n bresennol**<br>I'w hanfon gydag unrhyw adroddiadau (gan gynnwys datganiadau ysgrifenedig), a'r holl wybodaeth ategol, at yr holl bobl oedd yn bresennol, o leiaf 5 diwrnod ysgol cyn cyfarfod y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion. | | |
|---|---|---|
| **Swydd** | **Enw** | **Wedi cadarnhau** |
| Pennaeth | | |
| Llywodraethwr | | |
| Llywodraethwr | | |
| Llywodraethwr | | |
| (Llywodraethwr) | | |
| (Llywodraethwr) | | |
| Clerc | | |
| Disgybl | | |
| Rhiant/gwarcheidwad | | |
| Rhiant/gwarcheidwad | | |
| Eiriolwr | | |
| Cynrychiolydd Awdurdod Lleol | | |
| Arall: | | |

| **Gwybodaeth Ategol** | Ticiwch y blwch os oes tystiolaeth/adroddiadau wedi'u hatodi |
|---|---|
| Gohebiaeth â rhieni | |
| Data presenoldeb | |
| Cynlluniau Addysg Unigol / Cynlluniau Ymddygiad Personol ac | |

| | |
|---|---|
| adolygiadau | |
| Cynlluniau Cymorth Bugeiliol ac adolygiadau | |
| Cofnod ymddygiad (adroddiadau a data gwahardd) | |
| Dadansoddiad o ymddygiad (Rhestr wirio ymddygiad / Cryfderau a gwendidau ac ati) | |
| Adroddiadau Digwyddiadau Difrifol | |
| Cynlluniau Triniaeth Gadarnhaol / Asesiadau Risg | |
| Asesiadau Academaidd / Adroddiadau Cynnydd | |
| Ymyrraeth gan Asiantaethau Allanol (Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad, Gwasanaeth Cynnal Dysgu, Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc ac ati) | |
| Cofnod ymyriadau: | |
| Lles (Amddiffyn Plant / Tîm o Amgylch y Teulu / Proffil bregusrwydd) | |
| Datganiadau tystion: | |
| Cynlluniau ar gyfer parhau ag addysg: | |
| Arall: | |

# Y broses o wahardd yn barhaol

Pennaeth yn gwahardd y disgybl

Camau gweithredu ar gyfer yr Awdurdod Lleol

Camau gweithredu ar gyfer yr ysgol

O fewn diwrnod i'r gwaharddiad, dylai'r ysgol roi gwybod i'r rhieni /Awdurdod Lleol / Pwyllgor Disgyblu am y gwaharddiad, a hynny yn ysgrifenedig

Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth i roi gwybod i'r Cydlynydd Trosglwyddo Disgyblion yn ystod y Flwyddyn a'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles o'r gwaharddiad posibl

Trefniadau ar gyfer gosod a marcio gwaith yn eu lle.

O fewn 3 diwrnod gwaith

Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth i anfon llythyrau at y rheini yn cynnig help a chyngor

Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth i drefnu cyfarfod gyda'r Pennaeth i drafod achosion / opsiynau eraill a phrotocolau / Cais am Leoliad Arbenigol / symud wedi'i reoli a llenwi'r rhestr wirio

Ysgol / Pennaeth i lenwi Cais am Leoliad Arbenigol ar gyfer addysg yn y cartref. Anfon at y Pennaeth Dysgu Amgen o fewn 5 diwrnod.

15 diwrnod

O leiaf 5 diwrnod cyn hynny

Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth i gynnal ymweliad cartref / cyfarfod â'r rhieni er mwyn trafod yr opsiynau sydd ar gael, llunio cyflwyniad i'r Pwyllgor Disgyblu a Chais am Leoliad Arbenigol

Ysgol yn cynnal Pwyllgor Disgyblu'r Corff Llywodraethu ac yn dosbarthu'r gwaith papur

Cyfeirio'r mater at SNAP os yw'n briodol

Rhoi gwybod i'r Pennaeth Dysgu Amgen am gais Addysg yn y Cartref posibl.

Cynnal Pwyllgor Disgyblu'r Corff Llywodraethu. Dod i benderfyniad i gadw'r penderfyniad i wahardd y disgybl yn barhaol neu i wrthdroi'r penderfyniad hwnnw

Pwyllgor Disgyblu yn penderfynu gwrthdroi - disgybl yn aros yn yr ysgol
Neu
yn cadarnhau'r penderfyniad i wahardd yn barhaol (efallai bydd rhieni am apelio)

Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth yn anfon llythyr at y rheini:

- Egluro'r cam nesaf o'r broses er mwyn sicrhau addysg ar gyfer eu mab/merch
- Rhoi gwybod am unrhyw gynnydd o ran y broses apelio
- Darparu copi o'r ffurflen drosglwyddo yn ystod y flwyddyn

Addysg yn y cartref ar waith

Os yw'r rhieni yn cyflwyno apêl i'r Panel Apelio Annibynnol

15 diwrnod i gyflwyn o llythyr Panel Apelio Annibynnol

Ysgol i baratoi'r gwaith papur ar gyfer y Panel Apêl Annibynnol yn ôl yr angen

Ar ôl diwrnod 5

Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth i rannu'r canlyniad â'r unigolion perthnasol

Pennaeth a Chadeirydd Pwyllgor Disgyblu'r Corff Llywodraethu / Corff Llywodraethu i fynd i gyfarfod y Panel Apelio Annibynnol er mwyn cyflwyno'r achos

Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth i anfon Ffurflen Drosglwyddo yn ystod y Flwyddyn at y Cydlynydd Trosglwyddo yn ystod y Flwyddyn

- Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i fonitro presenoldeb
- Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth i sicrhau bod y disgybl yn cydymffurfio â'r trefniadau